# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 25 GORFFENNAF 2017 am 2.00 o'r gloch yp | | TUESDAY, 25 JULY, 2017 at 2.00 pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Robin Williams

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mr Dilwyn Evans, Mr Jonathan Mendoza

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 28 MEHEFIN, 2017** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2017.

**YN CODI**

Derbyn adroddiad llafar gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai ynglyn ac ymateb y gwasanaeth i'r ddau archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas â'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn y Gaerwen.

3 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 13 - 20)

Cyflwyno diweddariad ar weithgareddau Archwilio Mewnol.

4 **ARCHWILIO ALLANOL : DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 21 - 34)

Derbyn diweddariad ar Raglen Waith Perfformiad Archwilio Allanol.

5 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** (Tudalennau 35 - 46)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am 2016/17.

6 **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS** (Tudalennau 47 - 68)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151.

7 **BLAENRAGLEN WAITH** (Tudalennau 69 - 74)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Griffiths, G.O. Jones, Dylan Rees<br>Margaret Roberts, Robin Williams<br><br>Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans a Jonathan Mendoza |
| **YN BRESENNOL:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (SP)<br>Uwch Archwiliwr Mewnol (ECW)<br>Ymgynghorydd Perfformiad (Gwelliant) (NE) (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Alun Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd), John Griffith (Aelod Portffolio Cyllid - o eitem 6 ymlaen), Prif Weithredwr, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK) (ar gyfer eitem 3), Mr Andy Bruce (Rheolwr Archwilio Perfformiad - Swyddfa Archwilio Cymru), Mr Gwilym Bury (Yn arwain ar Archwilio Perfformiad - Swyddfa Archwilio Cymru) |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9 CHWEFROR, 2017

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir - cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod -

- 28 Mawrth, 2017
- 31 Mai, 2017 (ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd)

### 3. DATGANIADAU CYFRIFON 2016/17 A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn cynnwys drafft o'r Datganiad Cyfrifon (heb eu harchwilio) gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2016/17.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod dyletswydd statudol ar y Cyngor i gymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyn y gellir cychwyn yr Archwiliad Allanol, rhaid i'r Swyddog Adran 151 arwyddo'r Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon cyn dyddiad cau statudol, sef 30 Mehefin bob blwyddyn. Er bod y Datganiad yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn i roi gwybodaeth i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr ac

eraill sydd â diddordeb yng nghyllid y Cyngor, mae'n ddogfen dechnegol ar ffurf a ragnodir gan reoliadau ac arferion cyfrifeg.

Cyfeiriodd y Swyddog at, ac ymhelaethodd ar, y datganiadau allweddol sydd yn y cyfrifon fel a ganlyn:

- **Yr Adroddiad Naratif** sy'n darparu canllawiau ar y materion mwyaf arwyddocaol yr adroddir arnynt yn y cyfrifon, gan gynnwys y prif ddylanwadau ar y datganiadau ariannol sydd cysylltu gweithgareddau a heriau'r Cyngor i'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar ei adnoddau ariannol.
- **Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)** - yn dangos y gost gyfrifyddol o ddarparu gwasanaethau yn ystod o flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o'r trethi. Mae rhai eitemau yn y Datganiad yn cael eu cynnwys oherwydd gofynion cyfrifyddu, e.e. dibrisiant ac wedyn yn cael eu tynnu wrth osod y Dreth Gyngor oherwydd fel eitemau cyfrifyddu, nid ydynt yn ymwneud â'r modd y caiff gwasanaethau eu hariannu ac nid ydynt yn gostau gwirioneddol sy'n effeithio ar falansau defnyddiadwy'r Cyngor. Mae'r CIES yn dangos diffyg o £ 8.548m mewn perthynas â darparu gwasanaethau.
- **Dadansoddiad o Wariant a Chyllido -** mae hwn yn dangos y wybodaeth yn y CIES ond gyda'r addasiadau cyfrifyddu wedi cael eu canslo allan (Nodyn 7); mae hyn o gymorth i nodi'r balansau defnyddiadwy sydd gan y Cyngor heb yr addasiadau cyfrifyddu. Mae colofn gyntaf y Dadansoddiad o Wariant a Chyllido yn dangos effaith wirioneddol perfformiad ariannol y flwyddyn ar y Cyngor a balansau a chronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai. Pan gaiff yr addasiadau cyfrifyddu eu canslo allan, mae gwir effaith cost gwasanaethau'r Cyngor (gan gynnwys y Cyfrif Refeniw Tai) yn gostwng i £ 2.743m ar gyfer y flwyddyn sy'n rhoi golygu bod balans o £ 31.638m ar gael yn y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Mae hyn wedi gostwng o gymharu â 2015/16 oherwydd mae cronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi cael eu defnyddio i gyllido'r costau y cafodd y cronfeydd wrth gefn gwreiddiol eu clustnodi ar eu cyfer.
- Mae'r **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn (MiRS)** - yn dangos symudiad yn ystod y flwyddyn i ac o'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor ac fe wahaniaethir rhwng y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu leihau trethi'n lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r datganiad yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod a'r modd y caiff y costau hynny eu hariannu o'r gwahanol gronfeydd wrth gefn. Mae'r Datganiad yn dangos bod Cronfa Gyffredinol y Cyngor wedi gostwng £0.189m am 2016/17 gan olygu bod cyfanswm o £8.687m yn y gronfa wrth gefn gyffredinol. Cynhyrchodd y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) warged o £ 453k ac roedd balans yr HRA ar 31 Mawrth 2017 yn £ 7.495m. Defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn y modd a nodwyd uchod. Gwelwyd gostyngiad hefyd ym malansau'r ysgolion (yn y sector uwchradd yn bennaf) gan arwain at ostyngiad cyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy er gwaethaf perfformiad ariannol cadarnhaol yn erbyn cyllidebau 2016/17.
- Mae'r **Fantolen** yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r asedau net yn cael eu matsio gan gronfeydd wrth gefn a ddelir gan yr Awdurdod. Mae'r Fantolen yn adlewyrchu sefyllfa ariannol dda ar ddiwedd 2016/17 gyda gwerth net o £ 165.811m, gostyngiad o £ 8.249m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a hynny'n bennaf oherwydd newidiadau yn y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari pensiwn wrth gyfrifo'r rhwymedigaeth net o safbwynt pensiwn. Mae rhwymedigaeth pensiwn y Cyngor wedi cynyddu o £ 95.022m i £ 105.509m.
- **Y Datganiad Llif Arian** – mae'n dangos y newidiadau mewn arian parod a chywerthoedd arian parod y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd arian parod a chywerthoedd ariannol parod yn ystod y flwyddyn ariannol yn £ 14.9m. Caiff arian parod sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwahanol ffyrdd ac mewn gwahanol gyfrifon yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor.
- Mae'r **Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol craidd** yn darparu rhagor o fanylion am bolisïau cyfrifyddu'r Cyngor ac eitemau a ffigurau a gynhwysir yn y datganiadau. Dygodd y Swyddog sylw at y nodiadau yr oedd cydranddeiliaid y Cyngor yn debygol o fod â'r diddordeb mwyaf ynddynt wrth ddarllen y datganiadau.
- Mae'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/** yn nodi'r prosesau, systemau, egwyddorion a gwerthoedd sy'n sail i fusnes a gweithgareddau'r Cyngor. Mae'r Datganiad yn fodd i'r

Cyngor i asesu a yw wedi cyflawni ei amcanion strategol yn 2016/17 fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol.

Amlygodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y cyflawniadau, y materion a'r risgiau allweddol sy'n effeithio ar y Cyngor fel y nodir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad naratif. Yn 2016/17, cofnododd y Cyngor danwariant o £ 326k yn erbyn gweithgarwch a gynlluniwyd o £ 124m, a llwyddodd i wneud gwerth £ 3.4 miliwn o arbedion. Oherwydd y tanwariant, ychwanegodd y Cyngor £447k at y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae'r Cyngor yn cynnal balansau yn ei gronfeydd wrth gefn i dalu cost pwysau a digwyddiadau annisgwyl. Mae Adran 3.4.2 yr adroddiad yn cyfeirio at wariant cyfalaf y Cyngor gan gynnwys y modd y mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu ac ymrwymiadau benthyca'r Cyngor. Ar 31 Mawrth, 2017 roedd Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor, sy'n fesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca yn £ 134.014m sydd ymhell o fewn y Terfyn Benthyca Awdurdodedig o £ 169m yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a chodwyd y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor bod un o'r newidiadau mwyaf yn y Fantolen yn ymwneud â chronfa n wrth gefn y Cyngor ar gyfer pensiynau lle mae rhwymedigaeth y Cyngor wedi cynyddu £10.487m. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw hyn rhywbeth i bryderu amdano ac a yw'n debygol o gael effaith ar y datganiadau ariannol eraill o ran sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau a'r Swyddog Adran 151) bod y ffigwr mewn perthynas â diffyg pensiwn yn ymwneud â rhwymedigaethau'r Cyngor i dalu pensiynau a budd-daliadau yn y dyfodol rhag ofn y bydd y gronfa bensiwn yn ddirybudd - senario sy'n annhebygol iawn o ddigwydd. Mae'r cynnydd yn y rhwymedigaethau pensiwn yn seiliedig ar brisiadau actiwaraidd sy'n seiliedig ar nifer o ragdybiaethau. Caiff cyfraniadau'r Cyngor i'r Gronfa Bensiwn eu hadolygu bob tair blynedd fel rhan o'r prisiad tair blynedd y Gronfa Bensiwn. Yna, penderfynir ar strategaeth fuddsoddi er mwyn ceisio adennill unrhyw ddiffygion dros y cyfnod fel a bennir gan Actiwari'r Gronfa Bensiwn. Mae amrywiadau ym mherfformiad y Gronfa yn gyffredin oherwydd mae buddsoddiadau yn mynd i fyny ac i lawr yn ôl amodau'r farchnad. Yn dilyn y gwerthusiad actiwaraidd diweddaraf, penderfynwyd peidio â chynyddu cyfraniad y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn oherwydd ystyriwyd bod ei gyfraniad yn ddigonol i ddod â'r diffyg i lawr dros gyfnod o amser. Cadarnhaodd y Swyddog bod sefyllfa'r Gronfa Bensiwn wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac yn ei farn broffesiynol ef, nid oedd y diffyg yn fater sy'n peri pryder iddo ar hyn o bryd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw'r Cyngor yn meincnodi graddfeydd ei gyfraniadau a'i daliadau gyda chronfeydd pensiwn awdurdodau lleol eraill. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod gwybodaeth o'r fath ar gael yn natganiadau cyfrifon yr awdurdodau lleol eraill. Mae'r cyfraddau'n amrywio ymhlith awdurdodau lleol ac maent yn seiliedig nid yn unig ar berfformiad y Gronfa Bensiwn ond hefyd ar benderfyniadau hanesyddol megis rhyddhau staff yn gynnar rhan o ad-drefnu llywodraeth leol. Mae penderfyniadau i ryddhau staff yn gynnar yn golygu bod llai o staff i gyfrannu i'r Gronfa tra bod rhwymedigaethau'r Gronfa yn cynyddu oherwydd bod mwy o staff yn tynnu buddion ohoni dros gyfnod hirach.
- Serch y perfformiad ariannol cadarnhaol yn 2016/17, nododd y Pwyllgor y gwelwyd gostyngiad cyffredinol yng nghronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod gan y Cyngor ddigon o arian wrth gefn i allu i gwarchod yn erbyn risgiau ac argyfyngau ariannol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod cynnal balans iach yn y cronfeydd wrth gefn iach yn caniatáu i'r Cyngor fuddsoddi mewn trawsnewid gwasanaethau a gwella prosesau busnes gyda'r nod o sicrhau effeithlonrwydd parhaus; dyma yw strategaeth y Cyngor ar gyfer y defnydd o gronfeydd wrth gefn; nid ystyrir y dylid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn fel mater o drefn i gydbwyso'r gyllideb neu i ariannu codiadau is yn y Dreth Gyngor. Fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol ar gyfer cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Serch hynny, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal lefel o £ 6 miliwn o leiaf er mwyn rhoi iddo'r hyblygrwydd i allu ymateb i faterion sy'n codi megis yr hawliadau Tâl Cyfartal sy'n weddill a

phwysau ychwanegol ar gyllidebau gwasanaeth lle mae’r gostyngiadau blynyddol wedi eu gadael heb fawr o le i symud.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar rôl derbyniadau cyfalaf wrth gynllunio a gosod y gyllideb. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 bod derbyniadau o werthu asedau yn cael eu defnyddio i leihau dyledion y Cyngor neu i gyfrannu at ariannu buddsoddiad cyfalaf newydd. Er enghraifft, mae'r elw o werthu hen adeiladau ysgolion yn cael eu clustnodi fel cyfraniad tuag at yr ysgolion newydd y bwriedir eu codi. Mae derbyniadau cyfalaf o gymorth i leihau swm yr arian y mae’r Cyngor yn ei fenthyca.
- Nododd y Pwyllgor y bu buddsoddiad ychwanegol yn y Gwasanaethau Plant yn 2016/17 a gofynnodd am eglurhad ynghylch o ble y daeth yr arian ychwanegol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 bod setliad refeniw gwell na’r disgwyl yn 2016/17 a 2017/18 wedi caniatáu i'r Cyngor y sgôp i ariannu rhywfaint o dwf ychwanegol; nodwyd y Gwasanaethau Plant fel maes blaenoriaeth ar gyfer derbyn arian ychwanegol.

**Penderfynwyd nodi'r Datganiad Cyfrifon drafft am 2016/17 cyn iddo gael ei adolygu gan yr Archwilwyr Allanol.**

**DIM ANGEN CYMRYD UNRHYW GAMAU PELLACH**

**4. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2016/17**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor - Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17. Mae'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad o berfformiad y gwasanaethau ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill, 2016 hyd at 31 Mawrth, 2017, ac mae'n cynnwys datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith yr Uned Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth, 2017.

Amlygodd y Rheolwr Archwilio Mewnol sylw at y prif ystyriaethau fel a ganlyn -

- Mae rhestr o berfformiad y Gwasanaeth yn erbyn targedau a sefydlwyd ar gyfer y flwyddyn (Atodiad A) yn dangos bod y Gwasanaeth wedi cyflawni 73.85% o'r Cynllun Blynyddol yn erbyn targed o 80% a dangosydd perfformiad Cymru gyfan o 85% ar gyfartaledd. Roedd 3 archwiliad yn parhau i fynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn ac ar ôl cwblhau’r rheini, fe welir bod 78.46% o'r Cynllun Blynyddol wedi cael ei gyflawni. Roedd y diffyg i’w briodoli i'r ffactorau a ddisgrifir yn adran 3.2.2 o'r adroddiad.
- Cwblhaodd y Gwasanaeth 48 o archwiliadau yn ystod y flwyddyn, 4 ohonynt heb eu cynllunio, yn erbyn targed a gynlluniwyd o 65 archwiliadau. Cwblhawyd 79.17% o’r archwiliadau o fewn yr amserlen a gynlluniwyd a hynny yn erbyn dangosydd perfformiad heriol o 90% ac o gymharu â ffigwr cyfartalog o 68% ar gyfer Cymru gyfan. Effeithiwyd ar allu’r gwasanaeth i gyflawni’r dangosydd hwn gan 7 o brosiectau a gymerodd fwy o amser na’r targedau a gynlluniwyd ac a oedd yn cyfrif am 97.62 diwrnod.
- Mae perfformiad o ran argymhellion a dderbyniwyd yn 98.57%. Allan o gyfanswm o 279 o argymhellion a gyhoeddwyd, methwyd â chytuno ar 4 a gawsant eu hasesu fel rhai effaith isel.
- Cafodd adroddiadau archwilio drafft eu cyhoeddi o fewn 3.59 diwrnod yn erbyn targed perfformiad o 7 niwrnod a chyfartaledd Cymru gyfan o 7.2 diwrnod.
- Cafwyd llithriad o 258 o ddiwrnodau yn ystod y flwyddyn gan olygu na fu modd cynnal 23 o archwiliadau a gynlluniwyd a hynny am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 3.2.2 yr adroddiad. Ni fedrir rhoi sicrwydd Archwilio mewn perthynas ag archwiliadau a dynnwyd o Gynllun 2016/17. Bydd y meysydd hyn yn cael blaenoriaeth o ran eu hadolygu yn ystod 2017/18. Ceir rhestr o'r llithriadau gwirioneddol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn yn Atodiad B yr adroddiad.
- Mae pob un o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi arwain at lefelau sicrwydd cadarnhaol ac eithrio'r 7 archwiliad a restrir ym mharagraff 4.2.2. o'r adroddiad a gafodd eu hasesu fel rhai a oedd yn darparu Sicrwydd Cyfyngedig. Bydd y rhain yn cael eu dilyn i fyny yn ystod 2017/18.
- Cynhaliwyd adolygiad pellach o'r Fframwaith Rheoli Risg yn ystod 2016/17 a oedd yn dangos cynnydd rhesymol o ran ymgorffori rheoli risg yn gadarn yn yr Awdurdod.

- Nododd canlyniadau cyffredinol y gwaith Archwilio Mewnol di bod 81.08% o adolygiadau wedi arwain at farn sicrwydd cadarnhaol (Sylweddol neu Resymol) a 18.92% wedi yn arwain at farn sicrwydd negyddol (Cyfyngedig neu Ychydig iawn). Mae'r 18.92% o adroddiadau a dderbyniodd farn sicrwydd negyddol yn cynnwys 7 adroddiad (7 Cyfyngedig, 0 Ychydig Iawn).
- Ceir rhestr o'r 11 archwiliad dilyn i fyny a'u canlyniadau yn Atodiad E yr adroddiad. Mae'r tabl yn adran 4.4.3 yr adroddiad yn crynhoi'r argymhellion Lefel Uchel a Chanolig a oedd wedi eu gweithredu ar 31 Mawrth, 2017. Cofnodwyd bod 86% o'r argymhellion wedi eu gweithredu ar 31 Mawrth, 2017. Manylir ar yr holl argymhellion Uchel a Chanolig a oedd yn parhau i fod angen sylw yn Atodiad G yr adroddiad.
- Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal 11 o ymchwiliadau gyda rhai ohonynt wedi eu dwyn ymlaen o 2015/16. Roedd hyn wedi cyfrif am 224.46 diwrnod gwaith o gymharu â tharged blynyddol o 153 o ddiwrnodau ar gyfer gwaith gwrth dwyll.
- Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei roddi i'r Pwyllgor yw sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn nad oes unrhyw wendidau mawr heblaw'r rhai a nodir. Ceir rhesymau am y farn archwilio ym mharagraff 3.5.1 yr adroddiad a chymerwyd i ystyriaeth yr ystyriaethau a restrir ym mharagraff 6.1.2.
- Mae'r Rheolwr Archwilio yn ymwybodol o feysydd lle byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag dibynnu'n rhesymol ar y system reolaeth fewnol o ran gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn. Nodir y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r meysydd hynny yn adran 6.5 yr adroddiad.

Daeth y Rheolwr Archwilio Mewnol i'r casgliad ei bod, ar y cyfan, yn fodlon bod y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod 2016/17 yn caniatáu iddi ddod i gasgliad rhesymol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli'r Cyngor ar gyfer y meysydd a adolygwyd. Cadarnhaodd y Swyddog ei bod yn fodlon bod gwaith y rheoleiddwyr allanol ynghyd ag adolygiadau perfformiad gwasanaeth yr Awdurdod yn caniatáu iddi ddod i gasgliad rhesymol bod gan y Cyngor Sir Ynys Môn, ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, brosesau boddhaol ar gyfer rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethiant corfforaethol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd am waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, 2017, a'r lefelau sicrwydd a gafwyd o ganlyniad i'r gwaith hwnnw. Nododd y Pwyllgor mai dim ond 74% o'r Cynllun Blynyddol a oedd wedi ei gyflawni ar adeg cyflwyno'r adroddiad; nododd y Pwyllgor ymhellach y gallai'r archwiliadau na chawsant eu cynnal gynnwys meysydd a allai fod â gwendidau yn eu trefniadau rheoli a allai beri risg i'r meysydd sy'n uniongyrchol gysylltiedig ond hefyd i'r Cyngor yn ehangach. Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad, felly, ynghylch a modd cyfiawnhau'r casgliad y daethpwyd iddo o ran rhesymoldeb y sicrwydd a ddarperir gan system rheolaeth fewnol y Cyngor. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fod yr ymagwedd o ran Archwilio Mewnol yn seiliedig ar risg. Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yw'r prif beth y cyfeirir ato wrth lunio'r Cynllun Archwilio ond bod cofrestrau risg y gwasanaethau yn ogystal ag adroddiadau archwilio mewnol ac allanol hefyd yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Mae'r Cynllun Archwilio yn cael ei lywio gan wybodaeth a gasglwyd o'r amgylchedd risg sydd o gymorth i nodi'r meysydd hynny y mae angen eu harchwilio. Bydd unrhyw lithriant sy'n gorfod digwydd yn ymwneud â meysydd risg is.

**Penderfynwyd - ar ôl ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar ac ar bapur yn y dogfennau, bod y Pwyllgor yn dawel ei feddwl bod gan Gyngor Sir Ynys Môn, am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2017, brosesau boddhaol ar waith o ran rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol er mwyn rheoli a'i helpu i gyflawni ei amcanion.**

**DIM ANGEN CYMRYD UNRHYW GAMAU PELLACH**

## 5. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL GWASANAETHAU CYHOEDDUS (PSIAS) - ASESIAD ALLANOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori canlyniadau'r asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd â Chynllun Gweithredu i ymateb i'r meysydd a nodwyd fel rhai yr oedd angen eu gwella.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg raid i'r prif swyddog archwilio, yn unol â'r PSIAS, ddatblygu a chynnal rhaglen sicrhau ansawdd a gwella sy'n ymdrin â phob agwedd o'r gweithgaredd archwilio mewnol. Rhaid i'r rhaglen sicrwydd a gwelliant gynnwys asesiadau mewnol ac allanol. Rhaid i'r asesiad gael ei gynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan adolygydd annibynnol cymwys o'r tu allan i'r sefydliad, naill ai drwy gyfrwng asesiad allanol llawn neu hunanasesiad a ddilysir gan adolygydd allanol. Mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG) wedi cydweithio i sefydlu dull adolygiad cymheiriaid o gynnal asesiadau allanol gyda'r hunanasesiadau wedyn yn cael eu dilysu gan adolygydd allanol. Enwebwyd Pennaeth Archwilio Cyngor Sir Ddinbych Archwiliad Mewnol gan WCAG i gynnal yr asesiad o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn ac fe wnaed hynny ym mis Mawrth 2017.

Dywedodd y Swyddog bod canlyniadau'r asesiad allanol a gynhaliwyd gan Bennaeth Archwilio Mewnol Sir Ddinbych y ceir manylion amdano yn Atodiad A yr adroddiad yn rhoi sicrwydd bod gwasanaeth Archwilio Mewnol Ynys Môn yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r Safonau. Serch hynny, tynnodd yr asesydd allanol sylw at dri maes lle yr oedd cydymffurfiaeth rannol yn unig ac at saith maes yr oedd angen eu gwella. Yr un pwysicaf yw absenoldeb fframwaith sicrwydd archwilio er mwyn sicrhau bod gwaith Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad llawn o agwedd ac arferion y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol gyda golwg ar sefydlu fframwaith sicrwydd yn 2018/19. Yn ychwanegol at hyn ac er gwaethaf ei fod yn cydymffurfio'n llawn ar adeg yr asesiad allanol, roedd cyfrifoldebau ychwanegol y prif swyddog archwilio am reoli risg ac yswiriant o Ebrill 2017 wedi peryglu'r gallu i barhau i gydymffurfio â Safon 1100 o ran annibyniaeth a gwrthrychedd y swyddogaeth archwilio. Fodd bynnag, roedd y PSIAS hefyd wedi cael eu diwygio o Ebrill, 2017. Mae Safon 1112 sy'n ymwneud â Rolau'r Prif Swyddog Archwilio y tu draw i Archwilio Mewnol bellach yn cydnabod y gall prif swyddogion archwilio fod â chyfrifoldebau gweithredol yn ychwanegol at archwilio mewnol. Bydd y Siarter Archwilio Mewnol yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r trefniadau newydd a bydd y fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi, 2017.

Cadarnhaodd y Swyddog bod Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r meysydd cydymffurfiad rhannol a'r meysydd ar gyfer gwelliant a nodwyd ac roedd y cynllun hwn ynghlwm wrth yr adroddiad ar yr asesiad allanol. Y bwriad ar gyfer y dyfodol yw y bydd y Cynllun Archwilio yn cael ei asesu'n barhaus ar gyfer risgiau yn y dyfodol fel mai dim ond y meysydd risg uchel a fydd yn cael eu harchwilio gan olygu y dylai meysydd risg isel a'r llithriadau leihau.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a chodwyd y pwyntiau canlynol -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a fyddai safonau tebyg yn cael eu cymhwyso i adroddiadau archwilio mewnol yn enwedig o ran y gwaith o weithredu'r argymhellion. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai'n adolygu'r dull archwilio yn gyfan gwbl yn ystod y flwyddyn gan gynnwys trefniadau adrodd. Dywedodd y Swyddog bod angen i safonau perfformiad fod yn ystyrlon ac y byddai'n ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch ei disgwyliadau a gofynion ar gyfer adrodd ar berfformiad fel y gellir bod yn sicr ynghylch effeithiolrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran monitro digonolrwydd system rheolaeth fewnol y Cyngor.
- Nododd y Pwyllgor y byddai'r dull archwilio, fel rhan o'r adolygiad Archwilio Mewnol, yn canolbwyntio ar feysydd risg uchel a nodwyd gyda'r canlyniad y byddai meysydd risg is yn syrthio allanol o'r Cynllun Archwilio. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd perygl cynhenid yn y strategaeth hon oherwydd y gallai'r meysydd risg is arwain at risgiau uchel a holodd am y camau a oedd yn cael eu cymryd i liniaru yn erbyn y posibilrwydd hwn. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod amser yn ffactor allweddol yn y Fframwaith Mapio Sicrwydd sydd wedi'i gynllunio i nodi'r sicrwydd a ddarperir ac o ble y daeth oherwydd po hiraf yr aiff maes heb ei adolygu, po fwyaf y risgiau sy'n gysylltiedig ag ef. Bydd meysydd risg isel yn cael eu darganfod dros amser oherwydd byddant yn dod

yn rhai risg uwch yn awtomatig am y rheswm nad ydynt wedi cael eu hadolygu. Mae yna nifer o feini prawf yn yr asesiad risg a'r Fframwaith Mapio Sicrwydd a ddefnyddir i sefydlu'r meysydd hynny y mae angen eu harchwilio ar adeg benodol a bydd hyn yn cael ei ddiweddaru'n barhaus.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar agwedd Archwilio Mewnol tuag at dwyll a'r mesurau diogelu sydd ganddo ar waith i leihau'r risg o golledion oherwydd twyll. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y Cyngor yn aelod o'r Rhwydwaith Twyll Cenedlaethol a'i fod drwy hynny'n cael ei hysbysu ynghylch gweithredoedd posibl o dwyll. Mae gan y Cyngor berthynas dda gydag awdurdodau lleol eraill ac mae'n cynnal cyfarfodydd â hwy i drafod unrhyw risgiau sy'n esblygu. Mae'r Cyngor hefyd yn aelod o CIPFA. Mae cynnal y cysylltiadau hyn yn golygu bod y Cyngor yn cael ei friffio'n dda am y risgiau sy'n effeithio ar y sector ac mae'r wybodaeth hon yn bwydo i mewn i'r fframwaith mapio sicrwydd a thrwy hynny yn ei alluogi i gymryd camau amserol os a phan fo angen.

  Dywedodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru, fod natur y risg o dwyll yn newid. Mae datblygiadau technolegol a'r tueddiad cynyddol i ddigideiddio gwasanaethau yn golygu bod sefydliadau sy'n cynnal busnes yn electronig, gan gynnwys cynghorau, yn fwy agored i'r risg o dwyll a'r colledion sy'n deillio o dwyll. Fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn trosglwyddo i Wasanaethau Archwilio awdurdodau lleol unrhyw wybodaeth y mae'n ei gael ynghylch ffynonellau posibl o dwyll.

  **Penderfynwyd derbyn a nodi canlyniadau'r asesiad allanol o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Gweithredu Risg y Pennaeth Archwilio a Risg a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r meysydd gwella a nodwyd.**

  **DIM ANGEN CYMRYD UNRHYW GAMAU PELLACH**

## 6. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd yn unol â chais y Pwyllgor ac er ei ystyriaeth: Adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn nodi'r cynnydd hyd at ddiwedd mis Mai, 2017 mewn perthynas â'r adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ers 1 Ebrill, 2017; dilyn i fyny'r adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol; cynnydd o ran cyflawni Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18 a diweddariad ar feysydd penodol.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar y materion canlynol -

- Roedd yr adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ymwneud ag Ynys Ynni (Ebrill 2017 a aseswyd fel un a oedd yn darparu sicrwydd Sylweddol) Gwirio Stoc, Uned Cynnal a Chadw Tai, Gaerwen (Mai 2017 a aseswyd fel un Sicrwydd Cyfyngedig); Uned Cynnal a Chadw Tai (Mai 2017 a aseswyd fel un Sicrwydd Cyfyngedig) a'r Brif System Gyfrifyddu (Mai 2017 a aseswyd fel un rhoi sicrwydd sylweddol). Cyfeiriodd y Swyddog at y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phob un o'r archwiliadau gan gyfeirio'n benodol at y diffygion a nodwyd yn y ddau archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig. Cadarnhaodd y byddai'r Uned Archwilio Mewnol yn cadw llygad ar y ddau faes er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r argymhellion a wnaed ar gyfer gwella rheolaethau mewnol.
- Adolygiadau dilyn i fyny a gwblhawyd mewn perthynas â Ffioedd Rheoliadau Adeiladu - Archwiliad a Gorfodaeth ac Adfer TGCh ar ôl Trychineb. Yn achos y cyntaf, canfuwyd yn ystod yr archwiliad dilyn i fyny cyntaf ym mis Ebrill 2017 mai ychydig o gynnydd oedd wedi'i wneud o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael â'r argymhellion archwilio mewnol. Cynhelir adolygiad dilyn i fyny pellach ym mis Awst 2017 ac adroddir ar y canlyniad i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi. Yn achos Adfer TGCh ar ôl Trychineb, canfuwyd yn ystod y trydydd adolygiad dilyn i fyny mai ychydig o gynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r camau i fynd i'r afael â'r argymhellion archwilio mewnol a oedd yn parhau i fod angen sylw o'r ddau adolygiad dilyn i fyny blaenorol. Cynhelir adolygiad dilyn i fyny pellach ym mis Awst, 2017.
- Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth wrthi'n llunio adroddiad ar y perfformiad o ran gweithredu'r holl argymhellion sy'n weddill a bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2017.
- Cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2017/18. Oherwydd y llithriad yn y gwaith o Gynllun Blynyddol 2016/17, mae gwaith Gynllun 2017/18 wedi bod yn araf. Fodd bynnag,

mae gwaith yn mynd rhagddo mewn 14 maes ar hyn o bryd a manylir ar y rhain ym mharagraff 6.2 yr adroddiad.

- Diweddariadau y gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu amdanynt o ran Diogelu Corfforaethol a'r trefniadau ar gyfer gweithredu argymhelliad AGGCC yn dilyn ei arolygiad o'r Gwasanaethau Plant. O ran y cyntaf, mae arwyddion cynnar bod cynnydd rhesymol wedi ei wneud wrth weithredu'r camau y cytunwyd arnynt a chyhoeddwyd adroddiad drafft ar 14 Mehefin, 2014. Adroddir ar ganlyniad yr adolygiad dilyn i fyny i gyfarfod mis Gorffennaf o'r Pwyllgor hwn. O ran adroddiad arolygu AGGCC, mae'r Pennaeth Gwasanaethau Plant wedi cyflwyno adroddiad a Chynllun Gwella Gwasanaethau i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth, 2017. Adroddwyd ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth sy'n ymgorffori'r argymhellion a wnaed gan AGGCC i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Ebrill 2017 a bydd yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor hwnnw o fis Mehefin 2017 ymlaen. Gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol felly roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bod y Gwasanaethau Plant wedi sefydlu proses i sicrhau bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cael ei fonitro.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd y Rhaglen Ynys Ynni fel prosiect mawr traws-sefydliadol wedi ei chysylltu â chofrestr risg o ystyried y gallai fod perygl canlyniadol i'r Cyngor fel partner yn y rhaglen. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fod y prosiect Rhaglen Ynys Ynni wedi ei gynnwys ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor.
- Nododd y Pwyllgor nad oedd camau gweithredu angenrheidiol a argymhellwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn cywiro diffygion a gwendidau mewn rheolaethau a nodwyd mewn adolygiadau archwilio yn cael eu cymryd yn brydlon bob amser gan Reolwyr. Nododd y Pwyllgor y cyfnod o amser a roddir i Reolwyr weithredu camau gan gynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion systematig sylfaenol a / neu faterion cadw tŷ y dylid eu gweithredu yn gyflym – mae'r ddau archwiliad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn y Gaerwen yn enghreifftiau o hyn. Nododd y Pwyllgor ymhellach y gallai Rheolwyr ymateb yn well i argymhellion archwilio mewnol - nodwyd yr archwiliadau dilyn i fyny mewn perthynas â Ffioedd Rheoliadau Adeiladu ac Adfer TGCh ar ôl Trychineb fel enghreifftiau lle gwnaed "fawr ddim cynnydd" ers adolygiad dilyn i fyny blaenorol sy'n golygu nad yw argymhellion archwilio wedi eu gweithredu'n llawn neu mewn modd amserol.
- Roedd y Pwyllgor, er yn cydnabod bod gwasanaethau yn aml yn gweithredu dan bwysau, a bod angen cadw hynny mewn cof wrth ystyried yr amser a gymer i ymateb i argymhellion archwilio, yn nodi bod angen i reolwyr gael eu herio'n fwy cadarn dros beidio â gweithredu argymhellion archwilio mewnol neu am beidio â gweithredu dros gyfnod estynedig o amser, yn enwedig lle mae'r lefel sicrwydd wedi cael ei hasesu fel 'Ychydig iawn' neu 'Gyfyngedig'. Mewn perthynas â'r archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig o'r Uned Cynnal a Chadw Tai, cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio a Risg fod y Pennaeth Gwasanaethau Tai wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion ar unwaith ac y byddai'r Pwyllgor yn cael diweddariad ar y cynnydd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.
- Cynigiodd y Pwyllgor y dylai'r Pennaeth Gwasanaethau Tai gael ei galw i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf i egluro sut y cododd y gwendidau mewn rheolaeth fewnol, y modd y mae'r gwasanaeth yn cyflawni o ran y camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael â'r materion rheoli a nodwyd yn y ddau archwiliad yn ymwneud â'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn y Gaerwen a sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu sicrhau bod y system reolaeth yn parhau i fod yn effeithiol yn y dyfodol.
- Nododd y Pwyllgor bod adroddiad ar argymhellion archwilio sy'n parhau i fod angen sylw wrthi'n cael ei lunio gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y sefyllfa gyfredol o ran argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod 77 o adroddiadau ar hyn o bryd gydag argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw; o'r argymhellion hynny, mae 5 yn Goch (nid yw'r dyddiad cau o ran gweithredu'r argymhellion wedi cyrraedd eto yn achos 2 ohonynt), 30 yn Ambr (y dyddiad cau ar gyfer gweithredu heb gyrraedd yn achos 14 ohonynt), 41 Melyn a Gwyrdd 14. O'r system raddio flaenorol, mae 10 o argymhellion Uchel, 109 o rai Canolig a 115 o rai Isel yn parhau i fod angen sylw.
- Yn wyneb y wybodaeth uchod ac er yn ymwybodol o lefel y wybodaeth y gallai ei olygu, cynigiodd y Pwyllgor ei fod, fel ymarfer unwaith ac am byth, ac er mwyn darparu trosolwg a chyd-destun, yn cael

rhestr o’r holl argymhellion archwilio mewnol sy’n parhau i fod angen sylw (gan gynnwys unrhyw rai o’r adroddiadau hynny lle yr oedd y lefel sicrwydd yn Sylweddol) a bod crynodeb byr o gefndir, cynnydd a statws y cyfan o’r rheini lle mae’r risgiau a / neu'r materion wedi cael eu hasesu fel Trychinebus neu Fawr yn cael ei gyflwyno hefyd. Awgrymwyd bod angen gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth esbonio rheswm dros beidio â gweithredu ar argymhellion lle mae'r risgiau wedi cael eu categoreiddio fel rhai Trychinebus neu Fawr.

- Cynigiodd y Pwyllgor ymhellach y dylai adroddiadau ar adolygiadau archwilio mewnol fod ar gael i'r Pwyllgor y tu allan i'r cylch cyfarfodydd fel a phan y maent yn cael eu cyhoeddi fel eu bod ar ben y gwaith ac yn cael rhyw syniad am faterion sy’n codi cyn eu trafod mewn manylder. Er mwyn sicrhau y gellir ymdopi â lefel y wybodaeth a ryddheir ac er mwyn sicrhau y parheir i ganolbwyntiau ar risgiau allweddol yn unig, dylai’r adroddiadau a ddarperir fod yn gryno a chanolbwyntio ar adolygiadau lle mae'r farn sicrwydd yn Isel Iawn neu’n Gyfyngedig.
- O ran yr adroddiad ar arolygiad AGGCC o’r Gwasanaethau Plant, ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd nad oedd y 12 mis a gafodd y gwasanaeth i weithredu ar yr argymhellion a oedd yn deillio o'r arolygiad yn gyfnod rhy hir o ystyried y pryderon sylweddol a nodwyd a natur risg uchel y maes gwasanaeth dan sylw. Hysbyswyd y Pwyllgor y bydd 7 o argymhellion yn cael sylw fel mater o flaenoriaeth ac y bydd yr argymhellion sy'n weddill yn cael eu gweithredu dros 12 mis. Dyma’r amserlen a bennwyd gan y rheoleiddiwr sy'n cydnabod bod gweithredu rhai o'r argymhellion yn golygu cyflwyno arferion a phrosesau newydd y bydd angen eu sefydlu dros gyfnod o amser. Bydd y Pwyllgor Sgriwtini’n monitro cynnydd y camau gweithredu.

**Penderfynwyd nodi'r cynnydd a wnaed gan yr Uned Archwilio Mewnol o ran cyflawni gwasanaethau, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd a gyrru gwelliant.**

**CAMAU GWEITHREDU i ddilyn:**

- **Y Pennaeth Archwilio a Risg i ofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ar ran y Pwyllgor i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2017 i roi cyfrif am ymateb y gwasanaeth i'r ddau archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas â'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn y Gaerwen a'r materion sy'n codi.**
- **Y Pennaeth Archwilio a Risg i gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017, restr o’r holl argymhellion archwilio mewnol sydd heb eu gweithredu. Yn ogystal, bydd crynodebau byr o gefndir, cynnydd a statws argymhellion a aseswyd fel rhai blaenoriaeth uchel neu lle mae risgiau / materion yn codi yn cael eu hasesu fel Trychinebus neu Fawr yn cael eu cyflwyno.**
- **Y Pennaeth Archwilio a Risg i wneud trefniadau i ddarparu ar gyfer y Pwyllgor grynodeb o adolygiadau archwilio mewnol sy’n cael barn sicrwydd ‘Ychydig Iawn’ neu ‘Gyfyngedig’ fel a phan fyddant yn cael eu cyhoeddi.**

**7. ARCHWILIO ALLANOL - CYFLWYNIAD AR Y FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO**

Gohiriwyd y mater hwn tan y sesiwn hyfforddi sydd wedi'i chynllunio ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer mis Medi 2017. Bydd manylion y sesiwn yn cael eu cadarnhau maes o law.

**8. ARCHWILIAD ALLANOL: LLYWODRAETHU DA WRTH BENDERFYNU AR NEWIDIADAU SYLWEDDOL I WASANAETHAU - CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor – adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar ganlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor pan yn penderfynu ar newidiadau i wasanaethau.

Dywedodd Rheolwr Archwilio Perfformiad SAC y cynhaliwyd yr asesiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016. Fel sylfaen ar gyfer yr asesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newidiadau i wasanaethau, edrychwyd ar agweddau o’r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag amrywiaeth o gynigion ar gyfer newid gwasanaethau’n sylweddol;

roedd y rhain yn cynnwys yr adolygiad Gweithio’n Gallach, yr adolygiad a oedd yn ymwneud â Rheoli Gwastraff Gweddilliol a’r adolygiad Llyfrgelloedd. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn un cadarnhaol ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw ddiffygion ym mhrosesau’r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau, dim ond meysydd y gellir eu gwella ymhellach. Daeth yr Archwiliwr Allanol i’r casgliad bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn gyffredinol effeithiol, ond ei fod yn cydnabod y gellid eu cryfhau ymhellach. Gwnaed dau gynnig ar gyfer gwelliant, y naill mewn perthynas â chyflwyno asesiadau effaith ar gydraddoldeb yn gynnar yn y broses o wneud penderfyniadau ac i safon gyson, a'r llall mewn perthynas â datblygu trefniadau i fonitro effeithiau a manteision unrhyw newidiadau i wasanaethau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y templedi ar gyfer yr Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb wrthi’n cael eu hadolygu a'u symleiddio er mwyn sicrhau gwell cysondeb ar draws y Cyngor ac, fel rhan o’r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2018/19, byddant ar gael i Aelodau Etholedig yn gynharach yn y broses, sef yn y gweithdai cyllideb i Aelodau.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad Archwilio Allanol gan gynnwys y cynigion ar gyfer gwella.**

**DIM ANGEN GWEITHREDU YMHELLACH**

**9. ARCHWILIAD ALLANOL: ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2016/17 - CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor - Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilwyr Allanol ar gyfer 2016/17 mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith a wnaed ers yr adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys y gwaith a wnaed gan y rheoleiddwyr perthnasol.

Dywedodd Mr Gwilym Bury, Arweinydd Archwilio Perfformiad - Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor yn cwrdd â’i ofynion statudol mewn perthynas â gwelliannau parhaus ac yn seiliedig ar, ac yn gyfyngedig i'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, roedd yr Archwiliwr Cyffredinol yn credu bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017/18. Yn ystod y flwyddyn, nid oedd yr Archwiliwr Cyffredinol wedi gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwelliant yn yr adroddiad. Bydd cynnydd yn erbyn y cynigion hyn yn ogystal â'r rhai a wnaed mewn adroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3 yr adroddiad) yn cael ei fonitro gan yr Archwilwyr Allanol fel rhan o'u gwaith o asesu gwelliant.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol.**

**DIM ANGEN GWEITHREDU YMHELLACH**

**10. BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor ac er mwyn ei adolygu - adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 bod y rhaglen waith wedi cael ei datblygu i restru materion sy'n digwydd yn naturiol fel rhan o'r cylch archwilio a hefyd i alluogi'r Pwyllgor i gadw golwg ar faterion sydd wedi codi yn ystod y trafodaethau yn ei gyfarfodydd ac y mae’n dymuno cael sicrwydd pellach yn eu cylch; bydd y materion hyn yn cael eu cadw ar y rhaglen waith hyd nes y bydd y Pwyllgor yn fodlon eu bod wedi cael y sylw priodol.

Nododd y Pwyllgor yr eitemau isod fel rhai y dylid eu hychwanegu at y rhaglen waith yn codi o’r trafodaethau yn y cyfarfod hwn -

- Diweddariad ar ymateb y Gwasanaeth Tai o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y ddau adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig a oedd yn ymwneud â Gwirio Stoc a’r Uned Cynnal a Chadw Tai i fod ar gael yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2017.

- Bydd y Pwyllgor yn adolygu’r holl argymhellion archwilio mewnol sydd heb eu gweithredu yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017.

Cytunwyd bod y drafodaeth ar gylch gorchwyl y Pwyllgor ac a oes angen ei ddiwygio i adlewyrchu’r cyfrifoldebau ehangach a nodwyd gan CIPFA yn cael ei chyfeirio yn y lle cyntaf i’r sesiwn hyfforddi.

**Penderfynwyd derbyn a nodi’r Flaen Raglen Waith yn amodol ar gynnwys yr eitemau ychwanegol uchod.**

**CAMAU GWEITHREDU: Y Pennaeth Archwilio a Risg i ddiweddaru'r Rhaglen Waith yn unol â’r uchod.**

**Y Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 25 Gorffennaf 2017 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd diweddaraf yr adain Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithlonrwydd o ran gyrru gwelliant. Mae hefyd yn ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas ag eitemau penodol y mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdanynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad yn ddiweddariad ar yr isod fel ar 11 Gorffennaf 2017:

- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ers 1 Mehefin 2017
- Dilyniant o'r adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol
- Cynnydd ar ddarparu'r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18
- Diweddariadau penodol y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi cynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithlonrwydd wrth yrru gwelliannau.

## 3. Cefndir

3.1. Dyma fy ail adroddiad diweddaru fel y Pennaeth Archwilio a Risg. Rwy'n parhau i gynnal adolygiad o'r gwasanaeth archwilio mewnol a'i ddulliau, yn cynnwys fformatau adrodd. O ganlyniad, bydd fformat yr adroddiad hwyn yn debygol o newid yn dilyn ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid ac, yn enwedig, y Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

3.2. Rydym yn rhoi barn ar y lefel gyffredinol o sicrwydd ar gyfer pob aseiniad archwilio mewnol unigol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth ddisgwyliadau uwch reolwyr a rhanddeiliaid eraill ac fe gefnogir hynny gan wybodaeth ddigonol, ddibynadwy a pherthnasol. Wrth ddod i benderfyniad, byddwn yn defnyddio'r diffiniadau canlynol:

**Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd**

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad | Ymyrraeth Rheolwyr |
|---|---|---|
| **Sicrwydd sylweddol** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda.**<br><br>Dim camgymeriadau sylweddol o bwys wedi eu canfod. | Dim camau neu dim ond camau rheoli effaith isel sydd eu hangen.<br><br>Canfyddiadau y gellir eu datrys yn hawdd gan reolwyr llinell. |
| **Sicrwydd rhesymol** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol.**<br><br>Rhywfaint o anghysondeb a chyfleoedd yn parhau i fodoli i liniaru yn erbyn risgiau pellach. | Camau rheoli cymedrol neu effaith isel sydd eu hangen.<br><br>Mae modd cynnwys y canfyddiadau ar lefel gwasanaeth. |
| **Sicrwydd cyfyngedig** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **gyfyngedig.**<br><br>Mae bylchau yn y broses sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Nid yw amcanion yn cael eu diwallu neu eu bodloni heb sicrhau gwerth am arian. | Angen camau rheoli sydd ag effaith uchel i gymedrol.<br><br>Canlyniadau sydd angen eu datrys gan benaethiaid gwasanaeth ac efallai y bydd angen hysbysu'r UDA. |
| **Sicrwydd Ychydig iawn** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **sylweddol ddiffygiol.**<br><br>Ystyrir bod y rheolaethau allweddol yn annigonol gydag absenoldeb o leiaf un mecanwaith rheoli hanfodol. Hefyd, mae angen gwella cydymffurfiaeth â rheolaethau a daethpwyd o hyd i wallau a phethau sydd heb eu gwneud | Mae angen camau rheoli effaith sylweddol mewn nifer o feysydd.<br><br>Gwendidau rheoli sydd angen sylw'r UDA ar unwaith gydag ymyrraeth posibl gan y Pwyllgor Gwaith. |

## 4. Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a'r nifer o Argymhellion a godwyd yng nghynllun gweithredu'r adroddiad.

4.2 Rydym wedi cwblhau tri adroddiad yn ystod y cyfnod, i gyd yn waith ardystio grant, gyda graddfeydd ' Sicrwydd Sylweddol'.

### Ardystiad Rhentu Doeth Cymru 2016/17 – Ardystiad Grant

| Sicrwydd Sylweddol | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| | 0 | Catastroffig |
| | 0 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |
| | 0 | Bach |

4.1. Rhoddodd Llywodraeth Cymru grant o £12,916 ar gyfer 2016/17. Diben y grant yw galluogi neu gefnogi'r ddarpariaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gweithrediad Rhentu Doeth Cymru.

4.2. Er mwyn cydymffurfio ag amodau a thelerau perthnasol y grant rhaid bod tystysgrif archwilio'n cael ei harwyddo gan archwiliwr mewnol y sefydliad erbyn 30 Medi 2017. Fe wnaethom ddylunio ein hadolygiad er mwyn bodloni'r gofynion grant ac er mwyn darparu sicrwydd bod cofnodion cyfrifo clir yn cael eu cadw wrth nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r grant.

4.3. O'n hadolygiad o'r rheoliadau a chofnodion grant, roedd modd i ni ddarparu sicrwydd bod rheoliadau a chofnodion digonol wedi cael eu cynnal mewn perthynas â'r grant ar gyfer 2016/17.

4.4. Roedd hefyd modd i ni gadarnhau bod y gwariant a hawliwyd yn ddilys yn unol ag amodau a thelerau'r grant ac wedi ei nodi'n deg yng nghyfrifon y Cyngor ac yn yr hawliad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

4.5. Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion gennym.

### Grant Gwella Addysg 2016/17 – Ardystiad Grant

| Sicrwydd Sylweddol | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| | 0 | Catastroffig |
| | 0 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |
| | 0 | Bach |

4.6. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Grant Gwelliant Addysg er mwyn cefnogi ei nodau strategol gan gynnwys sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn elwa o addysgu a dysgu rhagorol. Nod y grant yn benodol yw gwella canlyniadau addysgol ar gyfer yr holl ddysgwyr a lleihau'r effaith o ran amddifadedd canlyniadau dysgu.

4.7. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r grant ar sail ranbarthol; mae'r Cyngor yn rhan o GwE – y Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, a dderbyniodd nawdd Grant Gwella Addysg ar gyfer 2016/17. Mae Cyngor Gwynedd, yr awdurdod sy'n arwain, yn dosbarthu'r grant o fewn y bartneriaeth ac mae'n gyfrifol am gyflwyno'r hawliadau grant ar ran yr awdurdodau partner lleol. Rhoddwyd grant o £3.1 miliwn i'r Cyngor ar gyfer 2016/17.

4.8. Fel rhan o delerau ac amodau'r grant, mae angen ardystiad archwilio gwariant. Rhaid i'r ardystiad gadarnhau bod y Cyngor wedi dyrannu'r cyllid at ddiben y grant, yn unol ag amodau a thelerau'r rhoddwr ar gyfer y cyllid ac yn unol â gofynion cydymffurfiaeth ac archwilio presennol y Cyngor.

4.9. O'r adolygiad o'r rheoliadau a chofnodion grant, gallwn ddarparu sicrwydd bod y Cyngor yn cynnal rheoliadau a chofnodion digonol a chywir ar gyfer y Grant Gwella Addysg ar gyfer y cyfnod 2016/17.

4.10. Roedd hefyd modd i ni ddarparu sicrwydd bod y gwariant a gofnodwyd mewn perthynas â'r grant yn ddilys yn unol ag amodau a thelerau'r grant a'i fod wedi'i nodi'n deg yn y cyfrifon. Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi sefydlu proses fonitro er mwyn monitro, mewn modd digonol a chywir, gwariant a gafwyd mewn perthynas â'r grant a bod yr holl incwm mewn perthynas â'r grant hwn wedi'i gyfrif yn y cyfriflyfr ariannol.

4.11. Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion gennym.

**Grant Amddifadedd Disgyblion 2016/17 – Ardystiad Grant**

| | Risgiau / Materion | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 0 | Catastroffig |
| | 0 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |
| | 0 | Bach |

4.12. Clustnododd Llywodraeth Cymru grant o £1.6 miliwn i'r Cyngor ar gyfer 2016/17.

4.13. O'n hadolygiad o'r rheoliadau a'r cofnodion grant, gallwn ddarparu sicrwydd bod y Cyngor yn cynnal rheoliadau digonol a chywir mewn perthynas â'r grant ar gyfer 2016/17.

4.14. Rydym hefyd yn gallu cadarnhau bod ein profion yn darparu sicrwydd bod y gwariant a hawliwyd yn ddilys yn unol â'r amodau a thelerau y rhoddwyd y grant

a'i fod wedi'i nodi'n glir yng nghyfrifon y Cyngor a'r hawliad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

4.15. Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion gennym.

## 5. Dilyn i fyny adroddiadau Archwilio Mewnol y gorffennol

5.1. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn i fyny yr holl adroddiadau gyda graddfa sicrwydd 'Gyfyngedig' neu is.

5.2. Rydym ar hyn o bryd yn rhoi adroddiad perfformiad at ei gilydd ar weithredu'r holl argymhellion sy'n weddill, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nesaf yn ystod Medi 2017.

5.3. Rydym wedi cwblhau un adolygiad dilyn i fyny yn ystod y cyfnod hwn.

### Diogelu Corfforaethol – Adroddiad Dilyn i Fyny Cyntaf (Gorffennaf 2017)

| | | Argymhellion Gwreiddiol[1] | Argymhellion sy'n Weddill[2] |
|---|---|---|---|
| Cynnydd Rhesymol | Catastroffig | | |
| | Sylweddol | 7 (Uchel) | |
| | Cymedrol | 25 (Canolig) | 6 |
| | Bach | | 2 |

5.4. Cynhaliwyd adolygiad gennym o Drefniadau Diogelu Corfforaethol y Cyngor ym Medi 2016 a chanlyniad hynny oedd graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig'.

5.5. Rydym wedi asesu pum argymhelliad blaenoriaeth Uchel a 18 o argymhellion Canolig fel y'u gweithredwyd at ddibenion yr adolygiad hwn.

5.6. Mae un argymhelliad blaenoriaeth Uchel yn ymwneud â chaffael moesegol wedi cael sylw mewn adolygiadau Archwilio Mewnol dilynol a bydd y gwaith o fonitro ei weithrediad yn cael ei wneud yn ystod yr adolygiadau dilynol hyn.

5.7. Nid yw'r dyddiad y cytunwyd arno ar gyfer cyflawni'r argymhellion blaenoriaeth canolig wedi cyrraedd hyd yma. Mae Rheolwyr yn y broses o weithredu'r holl argymhellion sy'n weddill.

5.8. Byddwn yn ymgymryd ag adolygiad dilynol pellach yn ystod Hydref 2017 er mwyn monitro'r cynnydd o ran gweithredu'r gweithredoedd rheoli.

[1] Wedi'u categoreiddio fel Uchel, Canolig ac Isel
[2] Ail aseswyd yn unol â fframwaith rheoli risg y Cyngor

## 6. Cynnydd o ran darparu'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2017/18

6.1. Mae'r tîm archwilio yn brysur ac mae gwaith yn digwydd mewn 12 maes ar hyn o bryd.

| Maes yr Adolygiad | Cam Presennol | Statws Presennol |
|---|---|---|
| Diwylliant Moesegol (Llithriant yn 2016/17) | Adroddiad drafft wedi'i gyhoeddi 24/05/17 | Disgwyl ymateb gan y gwasanaethau |
| Budd-daliadau Tai (Llithriant yn 2016/17) | Gwaith Maes | Disgwyl am wybodaeth gan y Gwasanaeth |
| Caffael Corfforaethol (Llithriant yn 2016/17) | Adroddiad Drafft | Trafod yr effaith / gweithred gogyfer gweithredu'r argymhellion gyda rheolwyr |
| Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth – Parodrwydd ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol | Cyfarfod y Pennaeth Swyddogaeth er mwyn cytuno ar sgôp ar gyfer 18/07/17 | Ar y trywydd iawn |
| Safonau Masnach – Cofrestriadau Sifil | Sgôp wedi'i gytuno a'i gyflwyno – gwaith maes wedi dechrau 30/06/17 | Ar y trywydd iawn |
| Treth Cyngor ac NNDR | Sgôp wedi'i gytuno a'i gyflwyno – gwaith maes wedi dechrau 10/07/17 | Ar y trywydd iawn |
| Mân Ddyledwyr | Sgôp wedi'i gytuno a'i gyflwyno – gwaith maes wedi dechrau 10/07/17 | Ar y trywydd iawn |
| Trafnidiaeth Ysgol | Trafod adroddiad drafft ac argymhellion gyda'r gwasanaeth | Ar y trywydd iawn |
| Credydwyr | Papurau gwaith yn cael eu paratoi | Ar y trywydd iawn |

| Maes yr Adolygiad | Cam Presennol | Statws Presennol |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Tryddedu | Sgôp wedi'i gytuno a'i gyflwyno – gwaith maes wedi dechrau 30/06/17 | Ar y trywydd iawn |
| Rhaglen Cefnogi Pobl | Sgôp a phapurau gwaith yn cael eu paratoi | Ar y trywydd iawn |
| Rheoli Rhaglen / Prosiect | Cwmpas a phapurau gwaith yn cael eu paratoi | Ar y trywydd iawn |

6.2. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun Blynyddol yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod yr ymdriniaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac yn seiliedig ar risgiau. Bydd newidiadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mhob cyfarfod.

## 7. Diweddariadau a ofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

7.1. Yn ei gyfarfod 28 Mehefin 2017, cafwyd cais gan y Pwyllgor am ddiweddariad ar faterion Gwasanaethau Tai a drafodwyd yn ystod y cyfarfod. O ganlyniad i'r amser rhwng cyfarfodydd, darperir diweddariad ar lafar.

This page is intentionally left blank

# Diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu –**Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyflwyno: Gorffennaf 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 457A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Paratowyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP a Swyddfa Archwilio Cymru. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Ynglŷn â'r ddogfen hon | 4 |
| Diweddariad ar archwilio ariannol | 4 |
| Diweddariad ar archwilio perfformiad | 5 |

# Diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio



## Ynglyn â'r ddogfen hon

1 Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r diweddaraf am waith presennol a gwaith a gynlluniwyd Swyddfa Archwilio Cymru i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'n cwmpasu gwaith archwilio ariannol a pherfformiad ynghyd â gwybodaeth am raglen archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol yr Archwilydd Cenedlaethol.

## Diweddariad ar archwilio ariannol

2 Mae Arddangosyn 1 yn rhoi trosolwg byr i'r Pwyllgor Archwilio o'r gwaith archwilio ariannol a adroddwyd i'r Cyngor. Ceir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn yr allbynnau a cherrig milltir allweddol a gynlluniwyd, fel y nodwyd yn yr amlinelliad drafft, yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Cyflawni gwaith archwilio ariannol 2016-17

| Canlyniadau arfaethedig | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Dyddiad adrodd arfaethedig | Adroddiad terfynol |
|---|---|---|---|
| **Dogfen Cyflwyniadau Archwilio** | Chwefror 2017 | Mawrth 2017 | Mawrth 2017 |
| **Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol** | Mehefin 2017 | Gorffennaf 2017 | |
| **Barn ar y Datganiadau Ariannol** | Mehefin 2017 | Gorffennaf 2017 | |
| **Cyfrifon Llywodraeth Gyfan** | Gorffennaf 2017 | Medi 2017 | |
| **Memorandwm Cyfrifon Ariannol** | Medi 2017 | Hydref 2017 | |
| **Adroddiad Archwilio Blynyddol** | Hydref 2016 | Tachwedd 2017 | |

# Diweddariad ar archwilio perfformiad

3 Mae Arddangosyn 2 yn crynhoi'r gwaith archwilio perfformiad a gwblhawyd yn ddiweddar neu sy'n mynd rhagddo yn y Cyngor – ac adroddiadau cenedlaethol sy'n berthnasol i lywodraeth leol. Arddangosyn 2: Gwaith archwilio perfformiad sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd neu sydd wedi'i gynllunio.

Arddangosyn 2: Diweddariad ar archwilio perfformiad

| Pwnc | Canolbwynt y gwaith | Statws |
| --- | --- | --- |
| **Gwaith perfformiad a gwblhawyd yn ddiweddar** | | |
| **Ynys Môn. Adroddiad Gwella Blynyddol 2016** | Crynodeb o waith archwilio a gynhaliwyd yn y Cyngor yn ystod 2016-17, ynghyd â'r canfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg. | Cyhoeddwyd Mehefin 2017. |
| **Adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru:**<br>**Cynllunio Arbedion mewn Cynghorau yng Nghymru** | Mae'n ystyried a oes gan awdurdodau ddulliau cadarn yn eu lle i gynllunio, rheoli, a chyflawni'r arbedion cyllideb y maent yn eu hwynebu, ar gyflymder sy'n ofynnol i sicrhau cydnerthedd ariannol. | Cyhoeddwyd Mehefin 2017. |

| Pwnc | Canolbwynt y gwaith | Statws |
|---|---|---|
| **Gwaith perfformiad a gwblhawyd yn ddiweddar** | | |
| **Adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru: Trosolwg ar Drefniadau Llywodraethu - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | Adolygiad ar y cyd a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>Roedd y gwaith adolygu wedi'i gynllunio i:<br>• roi eglurder ynghylch a all y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol;<br>• darparu asesiad y cytunwyd arno i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru wrth sicrhau bod diddordebau dinasyddion a chleifion yn cael eu diogelu;<br>• cyflawni ein cyfrifoldebau fel cyrff adolygu allanol i archwilio cynnydd a materion heb eu datrys, ac adrodd arnynt yn glir ac yn agored; a<br>• cynorthwyo gwelliant a llywio unrhyw weithgareddau eraill sydd eu hangen i drawsnewid y sefyllfa. | Cyhoeddwyd Mehefin 2017. |

| Pwnc | Canolbwynt y gwaith | Statws |
|---|---|---|
| **Gwaith perfformiad a gwblhawyd yn ddiweddar** | | |
| **Adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru: Y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif** | Rydym wedi archwilio a yw trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ei gynllunio a'i gyflawni yn sail gadarn ar gyfer y rhaglen yn awr ac yn y dyfodol.<br><br>Rydym wedi dod i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn rheoli'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn dda ond bydd angen iddi egluro rhai disgwyliadau manwl a gwneud addasiadau mewn ymateb i newidiadau arfaethedig o ran dull a chyllid i gael gwell gwerth o fuddsoddiad sector cyhoeddus yn y dyfodol. | Cyhoeddwyd Mai 2017 |
| **Adroddiad lleol Swyddfa Archwilio Cymru: Cynllunio Arbedion** | Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad er bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol sy'n gwella, efallai na fydd cynlluniau arbedion nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn yn cynorthwyo cydnerthedd ariannol yn y dyfodol yn llawn. | Cyhoeddwyd Mawrth 2017 |
| **Adroddiad lleol Swyddfa Archwilio Cymru: Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau** | Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Daethom i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau ar newidiadau gwasanaeth sylweddol yn effeithiol ar y cyfan, ond mae'n cydnabod y gallent gael eu cryfhau ymhellach. | Cyhoeddwyd ym mis Mai 2017. |

| Pwnc | Canolbwynt y gwaith | Statws |
|---|---|---|
| **Gwaith perfformiad a gwblhawyd yn ddiweddar** | | |
| **Adroddiad lleol Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad o Reoli Presenoldeb** | Daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwella'n sylweddol ei drefniadau corfforaethol i reoli absenoldeb oherwydd salwch drwy gyflwyno polisïau a gweithdrefnau absenoldeb cadarnach. | Cyhoeddwyd Mehefin 2017. |
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd** | | |
| **Adroddiad lleol Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygu Safon Ansawdd Tai Cymru** | Diben y trosolwg lleol hwn yw penderfynu a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol yn eu lle i'w alluogi i barhau i gyrraedd SATC. | Gwaith maes yn ystod mis Hydref 2017. Adroddiad lleol drafft i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2017. |
| **Adolygiad cysoni dulliau o gyflawni newid** | Bydd gwaith drwy grwpiau ffocws gyda staff a Chynghorwyr a bydd yn asesu cynghorau yn erbyn y nodweddion allweddol sy'n cefnogi newid a thrawsnewid. | Gwaith maes. Medi 2017. Adborth i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Arweinydd Hydref 2017. |
| **Llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Gwaith blwyddyn un** | Byddwn yn casglu tystiolaeth ar sut mae'r 44 o gyrff yn dechrau ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a nodi enghreifftiau o arfer nodedig sy'n dod i'r amlwg. Bydd y gwaith wedi'i gynllunio i gynorthwyo gwelliant a llywio gwaith archwilio yn y dyfodol o dan y Ddeddf. | Cyhoeddwyd briff prosiect ym mis Gorffennaf 2017. |

| Pwnc | Canolbwynt y gwaith | Statws |
|---|---|---|
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd** | | |
| **Adroddiad lleol Swyddfa Archwilio Cymru. Craffu - Parod at y Dyfodol** | Bydd yr adolygiad hwn yn archwilio effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith pwyllgorau craffu | Mae'r briff prosiect yn cael ei ddrafftio |
| **Adroddiad lleol Swyddfa Archwilio Cymru. Adolygiad o Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau** | Gan adeiladu ar waith a wnaed ar yr Astudiaeth Llywodraeth Leol mynd i'r afael â Dibyniaeth a Galw, bydd y prosiect hwn yn profi'r rhyngwyneb defnyddiwr gwasanaethau ym mhob awdurdod. Bydd yr adolygiad yn gwerthuso sut beth ydyw (fel aelod o'r cyhoedd) i ymwneud â gwasanaethau'r cyngor, gan gynnwys detholiad o wasanaethau a senarios. | Mae'r briff prosiect yn cael ei ddrafftio. I'w gyhoeddi ar ddiwedd mis Gorffennaf 2017. |
| **Llythyr Gwella Blynyddol 2017** | Crynodeb o waith archwilio perfformiad lleol a gynhaliwyd yn y Cyngor yn ystod 2017 | Llythyr drafft: Mawrth 2018. |
| **Astudiaeth 2016-17 - Gwella llesiant drwy addasiadau tai** | Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried gwasanaethau addasu tai a ddarperir gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd yr astudiaeth hefyd yn cynnwys cyrff iechyd drwy archwilio a yw addasiadau wedi cyflymu rhyddhau o ysbytai neu a ydynt wedi helpu i atal derbyniadau. | Cwblhawyd y gwaith maes. Cyhoeddir ym mis Hydref 2017. |
| **Astudiaeth 2016-17 - Comisiynu strategol gwasanaethau anabledd dysgu gan awdurdodau lleol** | Bydd yr astudiaeth yn asesu sut y mae awdurdodau lleol yn cyflawni comisiynu strategol yn effeithiol. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gynlluniau anabledd dysgu fel deunydd olrhain mewn awdurdodau lleol. | Cwblhawyd y gwaith maes. Cyhoeddir ym mis Hydref 2017 |

| Pwnc | Canolbwynt y gwaith | Statws |
|---|---|---|
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd** | | |
| **Astudiaeth 2016-17 - Sut mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw - Gwasanaethau digartrefedd** | Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar faes deunydd olrhain penodol o ddigartrefedd mewn awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r dyletswyddau atal diweddar a roddwyd ar awdurdodau lleol i farnu sut y mae'r galw am wasanaethau'n cael ei reoli | Cwblhawyd y gwaith maes. Cyhoeddir ym mis Tachwedd 2017 |
| **Astudiaeth 2017-18 - Defnyddio Data yn Effeithiol** | Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl awdurdodau lleol o ran pa mor effeithiol y maent wrth reoli a defnyddio data. Bydd hefyd yn ystyried pa mor effeithiol mae awdurdod wrth gyrchu a defnyddio data a ddelir gan bartneriaid. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cynghorau ar gamau gwahanol iawn o ran sut y maent yn defnyddio data. Felly bydd yr archwiliad yn asesu pob awdurdod lleol ar ei berfformiad gan nodi mor dda mae awdurdodau'n perfformio ar hyn o bryd o ran casglu data, dadansoddi data a defnyddio data i gynorthwyo gwneud penderfyniadau a'r defnydd o adnoddau. | Cyhoeddwyd briff prosiect ym mis Mehefin 2017. Cyhoeddir ym mis Awst 2018. |
| **Adroddiad cenedlaethol.** **Adolygiad tirwedd caffael cyhoeddus** | Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio | Cyhoeddir yn Haf 2017 |

| Pwnc | Canolbwynt y gwaith | Statws |
| --- | --- | --- |
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd** | | |
| **Adroddiad Cenedlaethol.**<br>**Rheoli gwastraff (atal gwastraff)** | Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio | Cyhoeddir yn Haf 2017 |
| **Adroddiad Cenedlaethol.**<br>**Rhaglen Cefnogi Pobl** | Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio | Cyhoeddir yn Haf 2017 |
| **Adroddiad Cenedlaethol.**<br>**Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (cynllunio ariannol tymor canolig integredig)** | Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio | Cyhoeddir yn Haf 2017 |
| **Adroddiad Cenedlaethol.**<br>**Gwasanaeth gwybodeg GIG Cymru** | Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio | Cyhoeddir yn Haf 2017 |

| Pwnc | Canolbwynt y gwaith | Statws |
|---|---|---|
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd** | | |
| **Adroddiad cenedlaethol.**<br>**Mynediad i wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu arbenigol** | Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio | Cyhoeddir ym mis Hydref 2017. |
| **Adroddiad Cenedlaethol.**<br>**Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol)** | Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio | Cyhoeddir ym mis Hydref 2017. |
| **Astudiaeth 2017-18 - Pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn darparu gwasanaethau i gymunedau gwledig** | O ystyried yr amgylchedd gweithredu newidiol ar gyfer llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau sydd ar wasgar yn ddaearyddol, bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar asesu pa mor effeithiol mae sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd i asesu anghenion, nodi blaenoriaethau, darparu a chynnal y ddarpariaeth o wasanaethau gweithredol allweddol i ddiwallu anghenion pobl mewn cymunedau gwledig. | Cyhoeddwyd briff prosiect ym mis Mehefin 2017. Mae arolwg yn cael ei gynnal mewn sioeau mawr yn 2018 gan gynnwys Sioe Amaethyddol Ynys Môn. Cyhoeddir ym mis Awst 2018. |

| Pwnc | Canolbwynt y gwaith | Statws |
|---|---|---|
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd** | | |
| **Astudiaeth 2017-18 - y Gronfa Gofal Canolraddol.** | Mae'r briff prosiect yn cael ei ddrafftio | Mae'r briff prosiect yn cael ei ddrafftio. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu / Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **25 Gorffennaf 2017 / 26 Medi 2017** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2016/17 – Adroddiad y Cadeirydd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**<br>**01248 752601**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>**01248 752611**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur yr Adroddiad a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu baratoi adroddiad i'r Cyngor ar ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r adroddiad sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r gofyn hwn. | |

**1. Cyflwyniad**

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod 2016/17.

**2. Argymhelliad**

2.1. Fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2016/17 cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Sir ar 26 Medi 2017.

**3. Gwybodaeth Gefndir**

3.1. Mae Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n un o bwyllgorau statudol y Cyngor. Mae'n elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor sy'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn.

3.2. Mae'r Pwyllgor yn darparu sicrwydd annibynnol i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â digonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd reoli fewnol, ac uniondeb y drefn adrodd ariannol. Drwy oruchwylio archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau fod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

## 4. Llywodraethu

4.1. Mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol Cymru'n cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd trefniadau rheoli mewnol a llywodraethu gyda'i Ddatganiad Cyfrifon blynyddol.

4.2. Yn dilyn ymgynghori eang, cynhyrchodd y Cyngor Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ac adolygiad o brosesau llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Roedd Datganiad 2015/16 yn gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (*Framework for Delivering Good Governance in Local Government*).

4.3. Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2016 cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2015/16 a chyfeiriwyd y ddogfen i sylw Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr, yn unol â'r gofyn statudol.

## 5. Rheoli Risg

5.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n gosod dyletswydd arno i wireddu'r gofynion hyn.

5.2. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Rheoli Risg o fewn y Cyngor. Cymeradwyodd y Pwyllgor Bolisi Rheoli Risg y Cyngor yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2015 a rhoddodd ystyriaeth i risgiau corfforaethol y Cyngor ar 26 Mai 2016 a 6 Rhagfyr 2016.

5.3. Bydd y Cyngor yn adolygu ei ddull o reoli risg yn ystod 2017/18. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn diweddaru'r Pwyllgor yn ôl yr angen.

## 6. Cyfrifon Ariannol

6.1. Derbyniodd a nododd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2015/16 yn ddibynnol ar ddatrys y mater a oedd yn sefyll fel y cafodd ei adrodd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

6.2. Dirprwyodd y Pwyllgor yr awdurdod i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i argymell y Datganiad o Gyfrifon 2015/16 ar gyfer ei gymeradwyo gan y Cyngor ar ôl derbyn cadarnhad gan yr Archwilwyr bod y mater sy'n sefyll yn y cyfrifon wedi ei ddatrys yn foddhaol a'u bod mewn sefyllfa i gyhoeddi barn ddiamod.

6.3. Yn dilyn datrys y materion a oedd yn sefyll, cyhoeddodd yr archwilwyr farn ddiamod ar y Datganiad o Gyfrifon ar 30 Medi 2016, yn unol â'r dyddiad cau.

## 7. Rheoli Trysorlys

7.1. Yn unol â’i gylch gorchwyl a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2011), bu i’r Pwyllgor graffu ar Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2016/17 ar 6 Rhagfyr 2016 ac ystyried yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2015/16 ar 25 Gorffennaf 2016. Cyfeiriodd y Pwyllgor y ddwy ddogfen i’r Pwyllgor Gwaith heb wneud unrhyw sylwadau ychwanegol.

7.2. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad canol blwyddyn Rheoli Trysorlys yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2016 er mwyn monitro datblygiadau a thueddiadau.

7.3. Fel rhan o’r broses o graffu ar yr adroddiadau uchod, adolygodd y Pwyllgor lefel y risg y mae’r Cyngor yn agored iddi a’i allu i reoli risg mewn perthynas â’i weithgareddau Rheoli Trysorlys.

## 8. Archwilio Mewnol

8.1. Yn ystod 2016/17, roedd gan y Cyngor Dîm Archwilio Mewnol mewnol wedi ei reoli o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o 1 Awst 2015. Daeth y trefniant hwn i ben ar 31 Mawrth 2017 pan benodwyd Pennaeth Archwilio a Risg mewnol.

8.2. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Siarter Archwilio Mewnol presennol yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill 2015. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno Siarter ddiwygiedig i’r Pwyllgor ym mis Medi 2017 er mwyn ei chymeradwyo.

8.3. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio Mewnol 2016/17 – 2018/19 a’r Cynllun Archwilio Blynyddol 2016/17 yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2016. Adroddodd y Rheolwr Archwilio ar ganlyniadau pob un o gyfarfodydd rheolaidd y Pwyllgor fel rhan o’r adroddiad cynnydd archwilio mewnol. Mae adroddiadau cynnydd hefyd yn cynnwys cynnydd y mae gwasanaethau’n ei wneud wrth weithredu argymhellion archwilio mewnol.

8.4. Yn ei gyfarfod ar 26 Mai 2016, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio mewnol i’r Pwyllgor ei farn archwilio mewnol blynyddol ar gyfer 2015/16 a oedd yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o’r fframwaith llywodraethu, trin a rheoli risg.

8.5. Ystyriodd y Pwyllgor adnoddau archwilio mewnol y Cyngor yn ei gyfarfod ar 26 Mai 2016 a gofynnwyd i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 godi pryderon y Pwyllgor gyda’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

## 9. Archwilio Allanol

9.1. Archwiliwr Cyffredinol Cymru yw archwiliwr allanol statudol y Cyngor. Mae rôl yr Archwiliwr Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae’r Cyngor yn rheoli a gwario arian cyhoeddus, yn cynnwys sut mae’n cyflawni gwerth am arian wrth ddarparu

gwasanaethau cyhoeddus a pha mor dda mae’r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella.

9.2. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, yn ymgymryd â’r Gwaith Perfformiad. Yn y cyfarfod ar 25 Gorffennaf 2016 adroddodd ar ei waith a rhoddwyd crynodeb o adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr eraill, sef AGGCC, Estyn a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

9.3. Mae Deloittes, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, yn ymgymryd â gwaith archwilio ariannol. Yn y cyfarfod ar 21 Medi 2016 adroddodd ar ei fwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2015/16.

9.4. Mae’r Pwyllgor wedi derbyn ac ystyried adroddiadau diweddaru rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Deloittes. Mae hon yn agwedd bwysig ar fusnes y Pwyllgor er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn ystyried yr holl adroddiadau allanol, un ai yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu neu un o’r Pwyllgorau Sgriwtini, a bod yn y camau priodol yn cael eu cymryd.

## 10. Gwrthsefyll Twyll a Llygredd

10.1. Ni dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw adroddiadau ar dwyll a llygredd yn ystod 2016/17.

## 11. Amlder Cyfarfodydd

11.1. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i’r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu’r Pwyllgor yn ffurfiol ar 8 achlysur.

11.2. Ceir gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2016/17 yn Atodiad A.

## 12. Aelodaeth

12.1. Mae’r Pwyllgor yn cynnwys wyth o aelodau’r Cyngor, gyda chydbwysedd gwleidyddol, ynghyd â dim mwy na dau aelod lleyg wedi eu cyfethol a’u penodi gan y Pwyllgor.

12.2. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Mai 2016, etholwyd y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones yn Gadeirydd a’r Cynghorydd John Griffith yn Is-Gadeirydd.

## 13. Effeithiolrwydd

13.1. Mae’r Pwyllgor wedi gweithio yn unol â’i gylch gorchwyl, sy’n cynnwys gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ran monitro rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol o fewn y Cyngor.

13.2. Mae camau gweithredu a godwyd gan y Pwyllgor a manylion eu datrysiad yn Atodiad B.

13.3. Manylir ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2017/18 yn Atodiad C.

## 14. Sylwadau'r Cadeirydd

14.1. Dymuna'r cyn-Gadeirydd fynegi ei ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu presenoldeb a'u cyfraniad i waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ac i staff y Cyngor sydd wedi bod yn bresennol ac wedi cyfrannu i'r cyfarfodydd. Mae'r cyn-Gadeirydd yn dymuno cymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl staff yn y Gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol, staff a oedd yn gymwynasgar iawn bob amser.

14.2. Dymuna'r cyn-Gadeirydd atgoffa'r Cyngor am bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor, sydd hyn yn oed yn fwy perthnasol o dan yr amgylchiadau economaidd presennol o ran sicrhau fod y Cyngor yn cael ei redeg mewn modd cadarn a'i fod yn cael gwerth am arian.

14.3. Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda staff y Cyngor er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus yng ngweithrediadau'r Cyngor yn 2017/18.

**Y CYNGHORYDD ROBERT LLEWELYN JONES**
**CYN-GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**
**25 GORFFENNAF 2017**

## Atodiad A – Amlder Cyfarfodydd a Phresenoldeb

| Aelodau | Cyfarfodydd | | | | | | | | Nifer cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 12/05/16 | 26/05/16 | 27/06/16 | 25/07/16 | 21/09/16 | 06/12/16 | 09/02/17 | 28/03/17 | |
| **Cyng R.Ll.Jones (Cadeirydd)** | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **8** |
| **Cyng John Griffith (Is-Gadeirydd)** | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **8** |
| **Cyng Jim Evans** | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuro | Presennol | Ymddiheuro | Presennol | Presennol | **6** |
| **Cyng R O Jones** | Presennol | Ymddiheuro | Ymddiheuro | Ymddiheuro | Ymddiheuro | Ddim yn Bresennol | Ymddiheuro | Ymddiheuro | **1** |
| **Cyng Dafydd Thomas** | Presennol | Ymddiheuro | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **7** |
| **Cyng Alun Mummery** | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **8** |
| **Cyng Peter Rogers** | Ddim yn Bresennol | Ymddiheuro | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuro | Presennol | Presennol | **5** |
| **Cyng Nicola Roberts** | Presennol | Ddim yn Bresennol | Ddim yn Bresennol | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuro | Ddim yn Bresennol | **4** |
| **Mrs Sharon Warnes** | Ymddiheuro | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **7** |
| **Mr Richard Barker** | Ymddiheuro | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuro | Ymddiheuro | Presennol | **5** |
| **Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor** | **7** | **6** | **8** | **8** | **9** | **6** | **7** | **8** | **59** |

## Atodiad B – Cynnydd mewn perthynas â’r Camau Gweithredu a godwyd gan y Pwyllgor yn 2016/17

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd y mater | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26/05/16 | 4 | Trefniadau Adfer ar ôl Trychineb TGCh | Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am y cynnydd o ran mynd i’r afael â materion mewn perthynas ag Adfer ar ôl Trychineb TGCh. | Rheolwr Parhad a Chefnogi Busnes TGCh | Parhaus | Derbyniwyd diweddariad ar: 27/06/16 25/07/16 21/09/16<br><br>Mae’r Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd – gweler 09/02/15 Eitem 5 | Gwyrdd |
| 26/05/16 | 4 | Sicrhau y darperir adnoddau digonol i’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol | Dilyn i fyny bryderon y Pwyllgor gyda’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | Yn syth | Gweithredwyd | Gwyrdd |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd y mater | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26/05/16 | 4 | Archwilio Mewnol i ddarparu diweddariad cryno ar feysydd penodol sy'n peri pryder | Ymgorffori yn y broses adrodd chwarterol i'r Pwyllgor, grynodeb sy'n rhoi diweddariad ar feysydd penodol sy'n peri pryder, yn cynnwys statws y camau gweithredu, y swyddogion sydd â chyfrifoldeb a'r amserlen ar gyfer cwblhau. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 / Rheolwr Archwilio Mewnol | Yn syth | Gweithredwyd | **Gwyrdd** |
| 26/05/16 | 8 | Adolygu Penodi Aelodau Lleyg | Ymestyn penodiadau'r ddau Aelod Lleyg presennol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i fis Mai 2017. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | Yn syth | Gweithredwyd | **Gwyrdd** |
| 26/05/16 | 8 | Adolygu Penodi Aelodau Lleyg | O fis Mai 2017, bod Aelodau Lleyg a benodir i'r Pwyllgor yn cael eu penodi am gyfnod sefydlog o 5 mlynedd i gyd-fynd â'r cyfnod amser rhwng etholiadau'r Cyngor a bod aelodau a benodir felly'n gallu gwasanaethu am fwy nag un tymor, naill ai'n olynol neu ar unrhyw adeg. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | Yn syth | Gweithredwyd | **Gwyrdd** |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd y mater | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25/07/16 | 3 | System wrth gefn ar gyfer  Adfer ar ôl Trychineb TGCh | Darparu crynodeb ysgrifenedig i'r Pwyllgor yn amlinellu sut fyddai'r system wrth gefn yn gweithio os digwydd trychineb. | Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Pherfformiad TGCh | 21/09/16 | Gweithredwyd | **Gwyrdd** |
| 25/07/16 | 4 | Darlun clir a chywir o sefyllfa gwasanaethau o ran gweithredu argymhellion archwilio. | Codi gyda'r UDA pa mor bwysig yw bod Rheolwyr yn cyfathrebu'n effeithiol ac amserol i ddarparu darlun clir a chywir o sefyllfa gwasanaethau o ran gweithredu argymhellion archwilio. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | 21/09/16 | Gweithredwyd | **Gwyrdd** |
| 21/09/16 | 5 | Archwiliad Mewnol Diogelu Corfforaethol - cyfeirio i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Canfyddiadau adolygiad archwilio mewnol Diogelu Corfforaethol i'w cyfeirio i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer craffu. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | Yn syth | Gweithredwyd gan Banel o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 17/10/16 | **Gwyrdd** |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd y mater | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 09/02/17 | 5 | Diweddariad terfynol ar y cynllun Adfer ar ôl Trychineb TGCh | Y Pwyllgor i dderbyn diweddariad terfynol ar Adfer ar ôl Trychineb TGCh ym Mehefin 2017 iddo fodloni ei hun bod y camau gweithredu sy'n weddill wedi eu cwblhau. | Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Perfformiad TGCh | 28/06/17 | Rheolwr Gwasanaeth a Rheoli Perfformiad TGCh wedi derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod ar 25/07/17 | **Ambr** |
| 28/03/17 | 7 | Ymateb y Cyngor i adroddiad arolygu AGGCC ar y Gwasanaethau Plant | Diweddariad ar y sefyllfa o ran ymateb i adroddiad arolygu AGGCC ar y Gwasanaethau Plant. | Rheolwr Archwilio Mewnol / Pennaeth Archwilio a Risg | 28/06/17 | Y Pwyllgor i dderbyn sicrwydd fod gan y Cyngor drefniadau mewn lle i ymateb i adroddiad AGGCC | **Gwyrdd** |
| 28/03/17 | 8 | Meini prawf cymhwyster ar gyfer penodi Aelodau Lleyg | Cadarnhau gyda'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a oes unrhyw hyblygrwydd o ran gweithredu'r meini prawf cymhwyster. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Yn syth | Gweithredwyd | **Gwyrdd** |

## Atodiad C – Blaen Raglen Waith 2017/18

| Dyddiad | Cyfrifon | Archwilio Mewnol | Archwilio Allanol | Rheoli Trysorlys | Rheoli Risg | Llywodraethu | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mai 2017 | | | | | | | Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd |
| Mehefin 2017 | Datganiad Cyfrifon Drafft a Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17 | Adroddiad Cynnydd | | | | |
| Gorffennaf 2017 | | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Blynyddol ar Weithgaredd Rheoli Trysorlys 2016/17 | | | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor – Adroddiad y Cadeirydd |
| Medi 2017 | Argymell, er cymeradwyaeth y cyngor, y Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Adroddiad Diweddaru | Cyflwyno Adroddiad ar y Cyfrifon i'r rheini sy'n gyfrifol am Lywodraethiant (ISA 260) | | Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Rheoli Risg<br>Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol | Cynnydd mewn perthynas ag Adroddiadau Rheoleiddio Allanol | |

| Dyddiad | Cyfrifon | Archwilio Mewnol | Archwilio Allanol | Rheoli Trysorlys | Rheoli Risg | Llywodraethu | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2017 | | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Craffu ar yr Adroddiad Gweithgaredd Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn 2017/18 | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br><br>Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch | Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a Llygredd<br><br>Adolygiad Blynyddol o Drefniadau Effeithiolrwydd a Gwrth Dwyll y Pwyllgor |
| Chwefror 2018 | | Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2018/19 i'w cymeradwyo<br><br>Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 yn cynnwys Dangosyddion Darbodus | Cofrestr Risg Corfforaethol | Cynnydd mewn perthynas ag Adroddiadau Rheoleiddio Allanol | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD:** | **25 GORFFENNAF 2017** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM 2016/17** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **GARETH ROBERTS/CLAIRE KLIMASZEWSKI (EST. 2675/1865)** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br><br>Cydymffurfio â'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Cynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Materion Rheoli Trysorlys am y cyfnod 2016/17 (Atodiad 8 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor llawn yn dilyn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor hwn. | |

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn, yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar reoli trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2016/17. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Yn ystod 2016/17, y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- Strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2016);
- Adroddiad diweddaru canol y flwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 28 Chwefror 2017);
- Adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (sef yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am y canlyniadau mewn perthynas â gweithgareddau trysorlys ac mae'n dwyn sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofyniad o dan y Côd bod y Pwyllgor Archwilio yn sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio, darparwyd hyfforddiant ar gyfer Aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Tachwedd 2016.

Yn ystod 2016/17, cydymffurfiodd y Cyngor â'r anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer Dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol | 2015/16 Gwirioneddol £000 | 2016/17 Gwreiddiol £000 | 2016/17 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>16,369<br>27,607<br>43,976 | <br>38,665<br>14,236<br>52,901 | <br>28,033<br>8,607<br>36,640 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>84,291<br>43,365<br>127,656 | <br>97,748<br>43,529<br>1369,277 | <br>91,515<br>42,499<br>134,014 |
| Benthyca Gros | 110,744 | 164,000 | 117,110 |
| Dyled Allanol | 110,744 | 164,000 | 117,110 |
| Buddsoddiadau<br>• Mwy na blwyddyn<br>• O dan flwyddyn<br>• Cyfanswm | <br><br>10,983<br>10,983 | <br><br>14,600<br>14,600 | <br><br>13,319<br>13,319 |

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfynau benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig) eu torri.

Gwelwyd yr un amgylchedd buddsoddi heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau.

**Argymhellion**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi y bydd y ffigyrau canlyniad yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2016/17 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau arwyddocaol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn;

**(ii)** Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2016/17 sydd yn yr adroddiad hwn;

**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2016/17 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith nesaf gydag unrhyw sylwadau.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio ar 31 Mawrth 2017
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartїon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2017
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartїon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 3 Gorffennaf 2017
Atodiad 4 - Sylwadau gan Capita Asset Services ar yr Economi, Buddsoddiad a Graddfeydd Benthyca

**Papurau Cefndirol:**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17
Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys am 2016/17
Adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Reoli Trysorlys 2016/17
Adroddiad Canlyniadau Cyfalaf 2016/17

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r swyddogaethau/gweithgareddau/ canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2016/17:-

- Gweithgaredd Cyfalaf;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Y dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Crynodeb o symudiadau'r graddfeydd llog am y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2016/17

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei ariannu.

| | 2015/16 Gwirioneddol (£m) | 2016/17 Amcangyfrif (£m) | 2016/17 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 16 | 39 | 28 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 28 | 14 | 9 |
| Cyfanswm Gwariant Cyfalaf | 44 | 53 | 37 |
| Wedi ei gyllido yn y flwyddyn y tu allan i'r CRT | 16 | 39 | 28 |
| Wedi ei gyllido gan y CRT yn y flwyddyn | 28 | 14 | 9 |
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca | 2 | 9 | 11 |
| Gwariant Cyfalaf CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca | 21 | 0 | 0 |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2016/17 a ariannwyd drwy fenthyca (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf a ariannwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill. Dengys y tabl uchod fod £11m o wariant cyfalaf cronfa'r Cyngor yn cael ei ariannu drwy fenthyca. Y benthyca allanol gwirioneddol a gymerwyd oedd £6.2m ar raddfa gostyngedig ar gyfer y prosiectau Ysgolion y 21ain ganrif. Benthyca mewnol oedd y £4.8m oedd yn weddill, gyda balansau'r Cyngor yn cyllido hyn yn y tymor byr i ostwng taliadau llog. Fodd bynnag, y disgwyliad yw yn y tymor hir i fenthyca er mwyn ailgyflenwi balansau'r Cyngor.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

### 3.3 Gostwng y CFR

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion sylfaenol benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw, MRP, er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2016/17 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LlCC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17 ar 10 Mawrth 2016.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR : Cronfa'r Cyngor | 2015/16 Gwirioneddol (£m) | 2016/17 Cyllideb (£m) | 2016/17 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 86 | 91 | 84 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf ariannwyd drwy fenthyca (fel uchod) | 2 | 9 | 11 |
| Llai MRP/VRP* | (4) | (4) | (4) |
| Balans Cau | 84 | 96 | 91 |

| CFR : CRT | 2015/16 Gwirioneddol (£m) | 2016/17 Cyllideb (£m) | 2016/17 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 44 | 44 | 43 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | - | - | 0 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (1) | (1) |
| Balans Cau | 43 | 43 | 42 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae’r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca gros a’r CFR, a chan y trothwy a awdurdodwyd.

## 3.4 Benthyca gros a’r CFR

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn bwyllog dros y tymor canolog a dim ond ar gyfer dibenion cyfalaf, dylai’r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â’r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a’r ddwy flynedd ariannol nesaf. I bob pwrpas, mae hynny’n golygu nad yw’r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Mae’r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i’r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i’w anghenion cyfalaf. Mae’r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca gros y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae’r Cyngor wedi cydymffurfio gyda’r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2016 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2017 Cyllideb (£m) | 31 Mawrth 2017 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 110.7 | 161.0 | 117.1 |
| CFR | 127.7 | 139.3 | 134.0 |

**3.4.1** Fel rhan o’r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2016/17, defnyddiwyd benthyciadau mewnol i gyllido’r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) a’r gwariant cyfalaf. Yn wyneb cyfraddau llog ar y farchnad ar hyn o bryd a’r rheini a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, penderfynwyd parhau i fewnoli benthyciadau o leiaf yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor, yn lle benthyca’n allanol ar gyfer holl ofyniad benthyca’r Cyngor, mae’n defnyddio ei arian wrth gefn ei hun i gyllido rhan o’i raglen gyfalaf. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2017, cymerodd y Cyngor fenthyciad o £6.2m gan PWLB. Roedd y benthyciad hwn ar gyfradd ffafriol o 2.2%, yn benodol ar gyfer prosiectau Ysgolion y 21ain Ganrif am y flwyddyn. Mae’r rhan fwyaf o’r benthyciad hwn (£4m) yn fenthyciad gyda chymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

**3.4.2** Mae’r strategaeth o fenthyca’n fewnol wedi cael ei gweithredu drwy gydol y 6 blynedd diwethaf. Yn rhannol oherwydd y penderfyniad i barhau â’r strategaeth hon, mae’r bwlch rhwng CFR a benthyca allanol wedi cynyddu £6.4m yn ystod 2016/17. Mae’r benthyciad gros o £117.1m ar 31 Mawrth 2017 yn llai na’r CFR a ragwelwyd ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

| | **Gwirioneddol 2016/17 (£m)** | **Amcangyfrif 2017/18 (£m)** | **Amcangyfrif 2018/19 (£m)** |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 134 | 139 | 141 |

Ffynhonnell: Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:

**3.5.1** **Y trothwy awdurdodedig** - y trothwy awdurdodedig yw'r "cyfyngiad benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Unwaith y mae hwn wedi ei bennu, nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y trothwy awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2016/17.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y trothwy awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost cyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall net o incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/176 |
|---|---|---|---|
| Trothwy awdurdodedig | £127.0m | £165.0m | £166.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £89.6m | £110.7m | £117.1m |
| Terfyn Gweithredol | £122.0m | £126.0m | £161.0m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - Cronfa'r Cyngor | 5.79% | 6.06% | 6.09% |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - CRT | 14.6% | 13.83% | 18.56% |

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2017

**4.1** Caiff sefyllfa dyledion a buddsoddiad y Cyngor ei drefnu gan y gwasanaeth rheoli trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli'r risgiau yn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau i sicrhau'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy'r adroddiadau i Aelodau y manylir arnynt yn y crynodeb a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17. Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2015/16 a 2016/17 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2016 | | | 31 MAWRTH 2017 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl) | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedr-wydd Cyfartalog (bl) |
| Dyled | 110.741 | 5.72 | 24.9 | 117,110 | 5.25 | 22.7 |
| CFR | 127,656 | | | 134,014 | | |
| Gor/(tan) fenthyca | (16,915) | | | (16,904) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (y cyfan < l flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog) | 5,000 | 0.50 | | 5,000 | 0.35 | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (yr holl wedi ei reoli'n fewnol) | 10.983 | 0.35 | | 8,319 | 0.15 | |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau | 10,983 | 0.40 | | 13,319 | 0.22 | |

Gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1. Nid aethpwyd dros ben y trothwyon ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy yn ystod y flwyddyn.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2016 | | 31 MAWRTH 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | £m | % o'r cyfanswm | £m | % o'r cyfanswm |
| Cyfanswm benthyciadau | 110.7 | 100 | 117.1 | 100 |
| Llai na 12 mis | 0.0 | 0.0 | 5.5 | 4.7 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 5.5 | 4.97 | 5.1 | 4.3 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 14.5 | 13.1 | 9.6 | 8.2 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 4.2 | 3.79 | 5.6 | 4.8 |
| 10 mlynedd a mwy | 86.5 | 78.14 | 91.3 | 78.0 |

**4.3** Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn oherwydd roedd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan yn gwneud aildrefnu'n anhyfyw.

**4.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos ar y gyfradd sylfaenol bresennol, £8.3m ar 0.15% ar 31 Mawrth 2017 (31 Mawrth 2016 – 11.2m ar 0.35%). Roedd un benthyciad i awdurdod lleol arall am £5m ar gyfradd llog o 0.35%. Roedd y cyfan o'r buddsoddiadau am lai na blwyddyn.

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2016/17

**5.1** Roedd y strategaeth ar gyfer 2016/17 yn cynnwys disgwyliad y byddai'r Gyfradd Banc yn aros yn isel ond yn codi (cychwyn yn Chwarter 1 2017) ac y byddai cyfraddau benthyca sefydlog tymor canol a thymor hir yn codi'n raddol yn ystod 2016/17. Roedd disgwyl i gyfraddau tymor byr neu amrywiadwy fod yn ffordd ratach o fenthyca yn ystod y cyfnod. Yn sgil parhad yr ansicrwydd ar ôl argyfwng ariannol 2008 a Brexit, parhawyd i fod yn wyliadwrus ac roedd buddsoddiadau yn parhau i gael eu dominyddu gan ystyriaethau risg gwrthbartïon isel gan arwain at ddychweliadau gweddol isel o gymharu â'r cyfraddau benthyca.

**5.2** Yn y sefyllfa hon, y strategaeth ar gyfer y trysorlys oedd gohirio benthyca, lle yr oedd hynny'n bosibl, i osgoi costau cadw lefelau uwch o fuddsoddiadau a gostwng risg gwrthbartïon.

**5.3** Yn ystod 2016/17, roedd cyfraddau PWLB yn anwadal iawn, gyda chyfraddau'n gostwng yn chwarteri 1 a 2 i lefelau hanesyddol isel iawn yn ystod Gorffennaf ac Awst, cyn codi'n sylweddol yn ystod chwarter 3 a gostwng yn rhannol eto tuag at ddiwedd y flwyddyn.

## 6. CANLYNIADAU BUDDSODDI AR GYFER 2016/17

**6.1** Polisi Buddsoddi – caiff polisi buddsoddi'r Cyngor ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru sydd wedi cael ei weithredu yn y Datganiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2016. Yn y polisi hwn, nodir y dull y dylid ei ddefnyddio wrth ddewis gwrthbartïon buddsoddi ac mae'n seiliedig ar statws credyd y 3 brif asiantaeth credyd ynghyd â data ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis y rhagolygon o ran graddfeydd, cyfnewid risg credyd ('credit default swaps'), prisiau cyfranddaliadau'r banciau ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio gyda'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw broblemau o safbwynt hylifedd.

**6.2** Parhaodd Cyfraddau Banc ar y lefel isaf erioed o 0.5% yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, achosodd canlyniad y Refferendwm i adael yr UE sioc economaidd yn y tymor byr gan greu ansicrwydd ac anwadalwch yn yr economi drwy gydol y flwyddyn. Yn Awst 2016, gostyngodd Banc Lloegr y gyfradd banc sylfaenol o 0.50% i 0.25% er mwyn lliniaru'r dirywiad yn yr economi. Yn sgil hynny, gostyngodd y sefydliadau gwrthbarti eu cyfraddau ar fuddsoddiad a gostyngodd y cyfraddau ar gyfrifon nodweddiadol y gellir galw arnynt o 0.25% i 0.15% ac is.

**6.3** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy. Rhoddwyd benthyciadau i awdurdodau lleol eraill hefyd er mwyn lleihau'r risg ond hefyd i geisio cynyddu dychweliadau yn sgil y cyfraddau isel iawn a oedd ar gael. Roedd disgwyl i falansau arian parod o £30m fod ar gael, yn amrywio rhwng £9m a £30m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.50% neu £150k ar ôl addasu ar gyfer graddfeydd uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £54k (0.18%) ar falansau a oedd, ar gyfartaledd, yn £19.1m. Roedd y balans arian parod is na'r disgwyl yn rhannol oherwydd parhau i fewnoli benthyca. Roedd y dychweliad is nag a gyllidebwyd i'w briodoli i gyfraddau gwaeth na'r disgwyl ar fuddsoddiadau yn dilyn Brexit, gyda chyfraddau'n parhau i ddisgyn yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyllideb y mae llog yn daladwy arni wedi cael ei diwygio ar gyfer 2017/18 i gyllideb fwy realistig er mwyn adlewyrchu'r cyfraddau llog is a'r dychweliadau ar fuddsoddiadau.

## 7. DIOGELWCH BUDDSODDI AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod 2016/17, parhaodd graddfeydd credyd i fod yn wael ar draws amrediad o'n gwrthbartïon arferol a gwaethygodd y sefyllfa'n dilyn y penderfyniad i adael yr UE yn dilyn y refferendwm. Ers diwedd 2008, mae wedi bod yn heriol adneuo gyda gwrthbartïon priodol. Mae hyn wedi mynd yn fwy heriol ers y refferendwm oherwydd bu'n rhaid i'r banciau ac ati ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r sioc economaidd oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol y marchnadoedd ariannol. Ym mis Rhagfyr 2008, cafwyd caniatâd gan y Cyngor i ymestyn yr hyblygrwydd gyda gwrthbartïon i ddelio gyda newidiadau yn y farchnad; roedd hyn yn cynnwys y gallu i fuddsoddi'r cyfan o'n gwarged gyda'r llywodraeth ganolog os bydd angen. Lledaenwyd y rhestr ymhellach yn Ebrill 2010 i gynnwys sefydliadau gwladol a sefydliadau rhannol wladol ac eglurwyd y rhestr honno ym Mawrth 2013 mewn perthynas â banciau yn y DU sydd wedi eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol ar gyfer meini prawf 2014/15. Roedd penderfyniadau blaenorol wedi ymestyn hyblygrwydd i fuddsoddi gydag awdurdodau lleol. Mae Atodiad 2 yn dangos ym mha sefydliadau yr oedd y Cyngor wedi adneuo arian ar 31 Mawrth 2017 a chyfraddau'r cwmnïau hynny. Mae Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 yn cynnwys y gallu i fuddsoddi mewn marchnadoedd arian AAA oherwydd mai cronfa fechan iawn yn unig sydd ar gael o wrthbartïon sy'n cydymffurfio gyda meini prawf y Cyngor ar gyfer gwrthbartïon.

**7.3** Effaith ymarferol y polisïau hyn oedd fel a ganlyn: yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda sefydliadau blaenllaw ar y stryd fawr (Santander, HSBC, RBS a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd. Yn ychwanegol at hyn, rhoddwyd £5m ar ffurf benthyciad tymor byr i ddau awdurdod lleol arall yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn er mwyn sicrhau dychweliad uwch tra'n lleihau'r risg.

## 8. GWEITHGAREDD YN YSTOD 2016/17

**8.1** Ychydig iawn o weithgaredd Rheoli Trysorlys o bwys a welwyd yn ystod y flwyddyn. Gwnaed buddsoddiadau er mwyn sicrhau bod risgiau'n isel ond llwyddodd y Cyngor i sicrhau dychweliadau uwch drwy roddi benthyciadau i awdurdodau lleol eraill tra'n defnyddio cyfrifon traddodiadol y gellir galw arnynt. Benthycodd y Cyngor £6.2m gan PWLB ym mis Mawrth 2017 ar gyfradd log isel o 2.2% ar gyfer prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cafodd refferendwm y DU ym Mehefin 2016 effaith ar y dychweliadau ar fuddsoddiad fel y nodir uchod.

## 9. GWEITHGAREDD ERS 2016/17

**9.1** Mae canlyniad refferendwm y DU ar 23 Mehefin 2016 i adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i greu ansicrwydd ac yn parhau i gael effaith ar statws banciau'r DU. Mae'r rhan fwyaf o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn banciau sydd wedi cael eu sgorio at i lawr. Fodd bynnag, mae eu cyfraddau tymor byr i'r tymor canolig yn parhau i fod o fewn y cyfraddau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17. Mae statws y banciau ac adneuon y Cyngor yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau'r risg leiaf bosib i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn lleihau risg ac yn sicrhau'r dychweliad mwyaf drwy fenthyca arian i awdurdodau lleol eraill a thrwy fuddsoddi yn y marchnadoedd arian AAA lle mae hynny'n berthnasol. Mae hyn yn ychwanegu at y math o fuddsoddiadau sydd gan y Cyngor ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar y nifer fechan o fanciau y gall y Cyngor fuddsoddi ynddynt.

**9.2** Yn ddiweddarach, gall canlyniad etholiad Mehefin 2017 ac anallu unrhyw blaid i sicrhau mwyafrif hefyd arwain at ansicrwydd economaidd ac, o ganlyniad, gael effaith ar weithgareddau rheoli trysorlys yn 2017/18.

**9.3** Ar 22 Mai 2017, aeddfedodd buddsoddiad gwerth £5m gyda Bwrdeistref Barking a Dagenham yn Llundain ac fe'i ad-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn.

**9.4** Ar 6 Mehefin 2017, aeddfedodd benthyciad gwerth £2.5m ac fe'i ad-dalwyd yn llawn i PWLB**.**

## 10. CASGLIAD

**10.1** Mae adolygiad o'r perfformiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17 wedi ei ddarparu uchod. Roedd y flwyddyn yn weddol sefydlog a'r gweithgaredd mwyaf arwyddocaol oedd benthyciad o £6.2m gan PWLB ar gyfer prosiectau Ysgolion y 21ain Ganrif. Roedd dychweliadau ar fuddsoddiad yn is nag erioed o'r blaen oherwydd i gyfradd sylfaenol y banc ostwng i 0.25% ar ôl saith mlynedd ar 0.50%. Roedd gan y Cyngor falansau ariannol priodol bob amser er bod y graddfeydd llog isel yn golygu nad oedd fawr o ddychweliad. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson â Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17 a'i amcanion allweddol sef risg isel a sicrhau bod digon o arian i dalu credydwyr y Cyngor ac ati. Ceir manylion yn Atodiad 1 am sefyllfa ariannol offerynnau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2017.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A**
**SWYDDOG ADRAN 151** **25 GORFFENNAF 2017**

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o Werth y Portffolio**
**Ar 31 Mawrth 2017**

| **ASEDAU ARIANNOL** | **Enwebol / Prif (£)** | **Gwerth Teg (£)** |
|---|---|---|
| Arian (cyfrifon llog) (1) | 8,319,288 | 8,335,758 |
| Adneuon Cyfnod Sefydlog (2) | 5,000,000 | 5,003,075 |
| **YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | |
| CCC | 116,684,478 | 173,549,156 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 250,597 | 408,548 |



**Gwrthbartïon**

**(1)** Arian (cyfrifon llog)

| | |
|---|---|
| Santander | 2,941,049 |
| Bank of Scotland | 5,278,012 |
| HSBC | 100,134 |
| RBS | 93 |
| | 8,319,288 |

**(2)** Adneuon Cyfnod Sefydlog

| | |
|---|---|
| Bwrdeistref Barking a Dagenham yn Llundain | 5,000,000 |

## ATODIAD / APPENDIX 2

Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Marwth 2017 *
Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2017*

| **Grŵp Bancio**/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | 5,278 | Galw/ Call | n/a | 0.15 | A+ | F1 | A1 | P-1 | A | A-1 | Coch – 6 mis/ Red - 6 months |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | Dim/Nil | Galw/ Call | n/a | 0.01 | AA- | F1+ | Aa2 | P-1 | AA- | A-1+ | Oren – 12 mis / Orange – 12months |
| Santander Group plc | Santander UK plc | 2,941 | Galw/ Call | n/a | 0.15 | A | F1 | Aa3 | P-1 | A | A-1 | Coch - 6 mis / Red – 6 months |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | Dim/Nil | Galw/ Call | n/a | 0.10 | BBB+ | F2 | A3 | P-2 | BBB+ | A-2 | Glas – 12 mis/ Blue – 12 months |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | 100 | Galw/ Call | n/a | 0.01 | BBB+ | F2 | A3 | P-2 | BBB+ | A-2 | Glas – 12 mis/ Blue – 12 months |
| N/A | London Borough of Barking and Dagenham | 5,000 | Tymor Sefydlog/ Fixed Term | 20/2/17- 22/5/17 | 0.35 | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2016/17 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**ATODIAD / APPENDIX 3**

Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 03 Gorffennaf 2017 *
Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 03 July 2017*

| **Grŵp Bancio**/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| UK | N/A | | | | | AA | N/A | Aa1 | N/A | AA | N/A | N/A |
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | 4,104 | Galw/ Call | n/a | 0.15 | A+ | F1 | A1 | P-1 | A | A-1 | Coch – 6 mis/ Red - 6 months |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | Dim/Nil | Galw/ Call | n/a | 0.01 | AA- | F1+ | Aa2 | P-1 | AA- | A-1+ | Oren – 12 mis / Orange – 12months |
| Santander Group plc | Santander UK plc | 7,457 | Galw/ Call | n/a | 0.15 | A | F1 | Aa3 | P-1 | A | A-1 | Coch - 6 mis / Red – 6 months |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | 4,021 | Galw/ Call | n/a | 0.10 | BBB+ | F2 | A2 | P-1 | BBB+ | A-2 | Glas – 12 mis / Blue – 12months |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | 100 | Galw/ Call | n/a | 0.01 | BBB+ | F2 | A2 | P-1 | BBB+ | A-2 | Glas – 12 mis / Blue – 12months |
| Total Deposits 19/06/17 | | 15,682 | | | | | | | | | | |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2017/18 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**ATODIAD / APPENDIX 2**

Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a’r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Marwth 2017 *
Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2017*

| **Grŵp Bancio**/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £’000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody’s Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody’s Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor’s (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor’s (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | 5,278 | Galw/ Call | n/a | 0.15 | A+ | F1 | A1 | P-1 | A | A-1 | Coch – 6 mis/ Red - 6 months |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | Dim/Nil | Galw/ Call | n/a | 0.01 | AA- | F1+ | Aa2 | P-1 | AA- | A-1+ | Oren – 12 mis / Orange – 12months |
| Santander Group plc | Santander UK plc | 2,941 | Galw/ Call | n/a | 0.15 | A | F1 | Aa3 | P-1 | A | A-1 | Coch - 6 mis / Red – 6 months |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | Dim/Nil | Galw/ Call | n/a | 0.10 | BBB+ | F2 | A3 | P-2 | BBB+ | A-2 | Glas – 12 mis/ Blue – 12 months |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | 100 | Galw/ Call | n/a | 0.01 | BBB+ | F2 | A3 | P-2 | BBB+ | A-2 | Glas – 12 mis/ Blue – 12 months |
| N/A | London Borough of Barking and Dagenham | 5,000 | Tymor Sefydlog/ Fixed Term | 20/2/17- 22/5/17 | 0.35 | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o’r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2016/17 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**ATODIAD / APPENDIX 3**

Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 03 Gorffennaf 2017 *
Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 03 July 2017*

| **Grŵp Bancio**/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| UK | N/A | | | | | AA | N/A | Aa1 | N/A | AA | N/A | N/A |
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | 4,104 | Galw/ Call | n/a | 0.15 | A+ | F1 | A1 | P-1 | A | A-1 | Coch – 6 mis/ Red - 6 months |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | Dim/Nil | Galw/ Call | n/a | 0.01 | AA- | F1+ | Aa2 | P-1 | AA- | A-1+ | Oren – 12 mis / Orange – 12months |
| Santander Group plc | Santander UK plc | 7,457 | Galw/ Call | n/a | 0.15 | A | F1 | Aa3 | P-1 | A | A-1 | Coch - 6 mis / Red – 6 months |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | 4,021 | Galw/ Call | n/a | 0.10 | BBB+ | F2 | A2 | P-1 | BBB+ | A-2 | Glas – 12 mis / Blue – 12months |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | 100 | Galw/ Call | n/a | 0.01 | BBB+ | F2 | A2 | P-1 | BBB+ | A-2 | Glas – 12 mis / Blue – 12months |
| Total Deposits 19/06/17 | | 15,682 | | | | | | | | | | |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2017/18 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

# 1. The Economy and Interest Rates

The two major landmark events that had a significant influence on financial markets in the 2016-17 financial year were the UK EU referendum on 23 June and the election of President Trump in the USA on 9 November. The first event had an immediate impact in terms of market expectations of when the first increase in Bank Rate would happen, pushing it back from quarter 3 2018 to quarter 4 2019. At its 4 August meeting, the Monetary Policy Committee (MPC) cut Bank Rate from 0.5% to 0.25% and the Bank of England's Inflation Report produced forecasts warning of a major shock to economic activity in the UK, which would cause economic growth to fall almost to zero in the second half of 2016. The MPC also warned that it would be considering cutting Bank Rate again towards the end of 2016 in order to support growth. In addition, it restarted quantitative easing with purchases of £60bn of gilts and £10bn of corporate bonds, and also introduced the Term Funding Scheme whereby potentially £100bn of cheap financing was made available to banks.

In the second half of 2016, the UK economy confounded the Bank's pessimistic forecasts of August. After a disappointing quarter 1 of only +0.2% GDP growth, the three subsequent quarters of 2016 came in at +0.6%, +0.5% and +0.7% to produce an annual growth for 2016 overall, compared to 2015, of no less than 1.8%, which was very nearly the fastest rate of growth of any of the G7 countries. Needless to say, this meant that the MPC did not cut Bank Rate again after August but, since then, inflation has risen rapidly due to the effects of the sharp devaluation of sterling after the referendum. By the end of March 2017, sterling was 17% down against the dollar but had not fallen as far against the euro. In February 2017, the latest CPI inflation figure had risen to 2.3%, above the MPC's inflation target of 2%. However, the MPC's view was that it would look through near term supply side driven inflation, (i.e. not raise Bank Rate), caused by sterling's devaluation, despite forecasting that inflation would reach nearly 3% during 2017 and 2018. This outlook, however, is dependent on domestically generated inflation, (i.e. wage inflation), continuing to remain subdued despite the fact that unemployment is at historically very low levels and is on a downward trend. Market expectations for the first increase in Bank Rate moved forward to quarter 3 2018 by the end of March 2017 in response to increasing concerns around inflation.

**USA.** Quarterly growth in the US has been very volatile during 2016 but a strong performance since mid-2016, and strongly rising inflation, prompted the Fed into raising rates in December 2016 and March 2017. The US is the first major western country to start on a progressive upswing in rates. Overall growth in 2016 was 1.6%.

**EU.** The EU is furthest away from an upswing in rates; the European Central Bank (ECB) has cut rates into negative territory, provided huge tranches of cheap financing and been doing major quantitative easing purchases of debt during 2016-17 in order to boost growth from consistently weak levels, and to get inflation up from near zero towards its target of 2%. These purchases have resulted in depressed bond yields in the EU, but, towards the end of 2016, yields rose, probably due at least in part to rising political concerns around the positive prospects for populist parties and impending general elections in 2017 in the Netherlands, France and Germany. The action taken by the ECB has resulted in economic growth improving significantly in the eurozone to an overall figure of 1.7% for 2016, with Germany achieving a rate of 1.9% as the fastest growing G7 country.

On the other hand, President Trump's election and promise of fiscal stimulus, which are likely to increase growth and inflationary pressures in the US, have resulted in Treasury yields rising sharply since his election. Gilt yields in the UK have been caught between these two influences and the result is that the gap in yield between US treasuries and UK gilts has widened sharply during 2016/17 due to market perceptions that the UK is still likely to be two years behind the US in starting on an upswing in rates despite a track record of four years of strong growth.

**Japan** struggled to stimulate consistent significant growth with GDP averaging only 1.0% in 2016 with current indications pointing to a similar figure for 2017. It is also struggling to get inflation up to its target of 2%, only achieving an average of -0.1% in 2016, despite huge monetary and fiscal stimulus, though this is currently expected to increase to around 1% in 2017. It is also making little progress on fundamental reform of the economy.


**China and emerging market counties.** At the start of 2016, there were considerable fears that China's economic growth could be heading towards a hard landing, which could then destabilise some emerging market countries particularly exposed to a Chinese economic slowdown and / or to the effects of a major reduction in revenue from low oil prices. These fears have largely subsided and oil prices have partially recovered so, overall, world growth prospects have improved during the year.

**Equity markets.** The result of the referendum, and the consequent devaluation of sterling, boosted the shares of many FTSE 100 companies which had major earnings which were not denominated in sterling. The overall trend since then has been steeply upwards and received further momentum after Donald Trump was elected President as he had promised a major fiscal stimulus to boost the US economy and growth rate.

# 2. Borrowing Rates in 2016/17


**PWLB certainty maturity borrowing rates**

During 2016-17, PWLB rates fell from April to June and then gaining fresh downward impetus after the referendum and Bank Rate cut, before staging a partial recovery through to December and then falling slightly through to the end of March. The graphs and table for PWLB rates below and in appendix 3, show, for a selection of maturity periods, the average borrowing rates, the high and low points in rates, spreads and individual rates at the start and the end of the financial year.






## 3. Investment Rates in 2016/17

After the EU referendum, Bank Rate was cut from 0.5% to 0.25% on 4 August and remained at that level for the rest of the year. Market expectations as to the timing of the start of monetary tightening started the year at quarter 3 2018, but then moved back to around the end of 2019 in early August before finishing the year back at quarter 3 2018. Deposit rates continued into the start of 2016/17 at previous depressed levels but then fell during the first two quarters and fell even further after the 4 August MPC meeting resulted in a large tranche of cheap financing being made available to the banking sector by the Bank of England. Rates made a weak recovery towards the end of 2016 but then fell to fresh lows in March 2017.




# 4. Other Graphs



# 5. Borrowing and investment rates

The PWLB rates are based on the maturity debt certainty rate.




| | 1 | 1-1.5 | 2.5-3 | 3.5-4 | 4.5-5 | 9.5-10 | 24.5-25 | 49.5-50 | 1 month variable |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/16 | 1.130% | 1.160% | 1.330% | 1.470% | 1.620% | 2.310% | 3.140% | 2.950% | 1.310% |
| 31/3/17 | 0.830% | 0.860% | 0.990% | 1.110% | 1.240% | 1.600% | 1.800% | 2.070% | 1.010% |
| High | 1.200% | 1.250% | 1.460% | 1.630% | 1.800% | 2.510% | 3.280% | 3.080% | 1.350% |
| Low | 0.760% | 0.800% | 0.840% | 0.880% | 0.950% | 1.420% | 2.080% | 1.870% | 1.040% |
| Average | 0.928% | 0.961% | 1.104% | 1.226% | 1.361% | 2.007% | 2.724% | 2.494% | 1.150% |
| Spread | 0.440% | 0.450% | 0.620% | 0.750% | 0.850% | 1.090% | 1.200% | 1.210% | 0.310% |
| High date | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 20/05/2016 |
| Low date | 20/12/2016 | 15/03/2017 | 10/08/2016 | 10/08/2016 | 10/08/2016 | 10/08/2016 | 12/08/2016 | 30/08/2016 | 30/11/2016 |

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/16 | 1.13% | 1.62% | 2.31% | 3.14% | 2.95% |
| 31/3/17 | 0.83% | 1.24% | 1.60% | 1.80% | 2.07% |
| Low | 0.76% | 0.95% | 1.42% | 2.08% | 1.87% |
| Date | 20/12/2016 | 10/08/2016 | 10/08/2016 | 12/08/2016 | 30/08/2016 |
| High | 1.20% | 1.80% | 2.51% | 3.28% | 3.08% |
| Date | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 | 27/04/2016 |
| Average | 0.93% | 1.36% | 2.01% | 2.72% | 2.49% |

## 6. Money market investment rates 2016/17

| | 7 day | 1 month | 3 month | 6 month | 1 year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/16 | 0.363 | 0.386 | 0.463 | 0.614 | 0.877 |
| 31/3/17 | 0.111 | 0.132 | 0.212 | 0.366 | 0.593 |
| High | 0.369 | 0.391 | 0.467 | 0.622 | 0.902 |
| Low | 0.107 | 0.129 | 0.212 | 0.366 | 0.590 |
| Average | 0.200 | 0.220 | 0.315 | 0.462 | 0.702 |
| Spread | 0.262 | 0.262 | 0.255 | 0.256 | 0.312 |
| High date | 27/5/16 | 21/6/16 | 10/5/16 | 22/4/16 | 26/4/16 |
| Low date | 28/12/16 | 21/12/16 | 30/3/17 | 31/3/17 | 10/8/16 |

**SOURCE CAPITA 2017**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## BLAENRAGLEN WAITH

**25 Gorffennaf 2017**

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Marion Pryor |
| | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg |
| E-bost: | MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Ffôn: | 01248 756211 |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **25 Gorffennaf 2017**<br>**21 Medi 2017**<br>**I'w gadarnhau**<br>**13 Chwefror 2018** | **Diweddariad Archwilio Mewnol**<br>• Diweddariad ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran sut mae'n cyflwyno'r gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **25 Gorffennaf 2017**<br>**21 Medi 2017**<br>**I'w gadarnhau**<br>**13 Chwefror 2018** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Allanol**<br>• Diweddariad ar waith Archwilio Allanol:<br>o Archwiliad ar Berfformiad<br>o Archwiliad Ariannol | **Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad – Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Gwilym.bury@audit.wales<br><br>**Rheolwr Archwilio Ariannol – Deloittes**<br>cedge@deloitte.co.uk |
| **25 Gorffennaf 2017** | **Diweddariad Cynnydd ar Materion Tai**<br>• Y wybodaeth ddiweddaraf fel y gofynnwyd gan y Pwyllgor yn cyfarfod ar 28 Mehefin 2017 | **Pennaeth Gwasanaethau Tai**<br><br>ShanWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **25 Gorffennaf 2017** | **Adroddiad Blynyddol Rheolaeth Trysorlys 2016/17**<br>• Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn ofyn yng ngweithdrefnau adrodd y Cyngor ac mae'n ymwneud â gweithgareddau'r trysorlys am 2016/17. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **25 Gorffennaf 2017** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – Adroddiad y Cadeirydd**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad y Cadeirydd i'w gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Sir ar 26 Medi 2017 | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **21 Medi 2017** | **Argymhellion Archwilio Mewnol sy'n weddill**<br>• Adroddiad o'r holl argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **21 Medi 2017** | **Adolygiad Blynyddol o'r Fframwaith a Strategaeth Rheoli Risg** | **Rheolwr Yswiriant a Risg**<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| **21 Medi 2017**<br>**13 Chwefror 2017** | **Cofrestr Risg Gorfforaethol**<br>• Ystyried y risgiau corfforaethol a gaiff eu manylu yn y Gofrestr. | **Rheolwr Yswiriant a Risg**<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| **21 Medi 2017**<br>**13 Chwefror 2018** | **Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **21 Medi 2017** | **Ymchwiliadau Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor**<br>• Bydd yr adroddiad yn gosod allan fanylion yr hawliadau yr ymchwiliwyd iddynt yn llwyddiannus gan y Tîm Ymchwilio Budd-daliadau. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **21 Medi 2017** | **Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ynglŷn â'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2016/17**<br>Un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw cymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor. Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu felly:<br>• gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2016/17, gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2016/17,<br>• derbyn adroddiad yr Archwiliwr Penodedig ar y cyfrifon a'r ISA 260, a<br>• chymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **5 Rhagfyr 2017** | **Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reolaeth Trysorlys ar gyfer 2017/18**<br>• Mae gofynion Adrodd am Arferion Rheoli Trysorlys CIPFA a threfniadau gwybodaeth gan reolwyr yn argymell y dylai awdurdodau lleol, fan leiaf, adrodd ar y sefyllfa canol blwyddyn o ran rheoli'r trysorlys. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa bresennol ar fuddsoddiadau a benthyca. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **5 Rhagfyr 2017** | **Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**<br>• Adolygiad o gylch gorchwyl y pwyllgor | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **13 Chwefror 2018** | **Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2018/19**<br>• Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2017 yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant er mwyn iddo ei gymeradwyo. | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>**MarionPryor@ynysmon.gov.uk** |
| **13 Chwefror 2018** | **Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2018/19 a Gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2018/19**<br>• Mae gofynion Adrodd am Arferion Rheoli Trysorlys CIPFA a threfniadau gwybodaeth gan reolwyr yn argymell y dylai awdurdodau lleol, fan leiaf, adrodd yn flynyddol ar eu strategaeth a chynllun rheolaeth trysorlys, cyn dechrau'r flwyddyn.<br>• Bydd yr adroddiad yn cynnwys y gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2018/19 yn unol â gofynion y Côd Darbodus. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>**MarcJones@ynysmon.gov.uk** |

| Eitemau i'r Dyfodol | | |
|---|---|---|
| **Mehefin 2018** | **Adroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 ynglŷn â'r Datganiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2017/18**<br>• Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu roi sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol drafft 2017/18 ac i gyfrannu at y gwerthusiadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethiant y Cyngor ymhellach yn ystod 2018/19. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk<br><br>**Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Mehefin 2018** | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18**<br>• Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno adroddiad a barn archwilio mewnol yn flynyddol, i'w ddefnyddio gan y Cyngor i gyfrannu at ei ddatganiad llywodraethiant. Mae'n rhaid i'r farn archwilio mewnol flynyddol ddod i gasgliad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gyffredinol.<br><br>• Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg ar gasgliad y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod 2017/18. | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |

This page is intentionally left blank